# ECO'R WYDDFA

Rhif 38 MEHEFIN 1979 Pris: 12c


## DILYN CAMAU JOHN OGWEN?



'Roedd y rhaglen 'Bywyd' a deledwyd ar HTV Cymru ar Fai 15 o ddiddordeb arbennig i bobl Penisarwaun oherwydd bod Dylan Pierce Williams, Bryn Rhydd Mawr yn actio ynddi. Bywyd Ceiriog oedd testun y rhaglen, a Dylan oedd yn portreadu mab y bardd.

Gwnaeth ei waith yn ardderchog, ac 'roedd ei ddealltwriaeth gyda John Ogwen (Ceiriog) yn un naturiol ac effeithiol. 'Roedd yr olygfa bysgota, er enghraifft, yn creu llun hollol gredadwy. Dangosodd Dylan, hefyd, ddisgyblaeth tu hwnt i'w oed yn yr olygfa lle'r oedd ar ei wely angau. Mae'n debyg fod profiad a chydymdeimlad John Ogwen wedi llwyddo i gael y gorau gan Dylan. Yr actorion eraill oedd Elliw Haf a Valmai Jones.

'Roedd dylanwad yr ardal yn gryf ar y rhaglen; Dylan, John Ogwen a Wil Aaron y cynhyrchydd, i gyd yn hogia' lleol, a'r ffilmio yn digwydd ym Mryn Bras a thafarn Gors Bach, Llanddeiniolen.

## WYNEBAU IFANC Y FRO

### AR EU FFORDD I'R ALBERT HALL DRWY FAESTEG



*Grŵp Cân Actol Ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen ar ôl perfformio mewn cyngerdd yn Llanrug yn ddiweddar. Yn ystod yr wythnos olaf o Fai byddant yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Maesteg ac ym Mehefin byddant yn cynrychioli ysgolion Cynradd Cymru mewn cyngerdd arbennig fel rhan o weithgareddau Blwyddyn y Plentyn yn Neuadd Albert yn Llundain. Ein dymuniadau gorau iddynt.* Llun: I. Jones

## DWY FRENHINES FECHAN:-

### LLANRUG



*Newydd ei choroni mewn cyngerdd arbennig a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llanrug mae Gwen Morris Owen, Bro Rhyddallt, brenhines y 'Majorettes'. Gyda hi yn y llun mae ei gweinyddesau a'i chynorthwywyr, Amanda McGuiness, Julie Owen, Paula Evans, Owain Eilir Jones, Barry John Roberts a Christine Jordan.* Llun: I. Jones

### LLANBERIS



*Brenhines Carnifal Llanberis eleni yw Maxine Thomas, 18 Ffordd Tŷ Du (canol). Ei gweinyddesau yw Gillian Evans, 14 Stryd Newton (chwith) a Nia Gwyn Griffiths, Llwyn Piod (de).* Llun: I. Jones

**DEWICH I LEISIO BARN**

**NOS IAU, MEHEFIN 21**

**Yn y Ganolfan Llanberis**

**am 7.30**

**cynhelir cyfarfod i holl ddarllenwyr yr Eco i fynegi eu barn ar gynnwys y tri rhifyn diwethaf**

## DATHLU PENBLWYDD



*Adduniad. Trowch i golofnau newyddion Waunfawr am yr hanes.*

# ECO'R WYDDFA

RHIF 38 MEHEFIN 1979

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Nant Peris*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*



## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon 3719)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun.

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis (Llanberis 220)

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321) Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 3577)

**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.

**TREFNYDD GWERTHIANT POST :** Mrs. M. Evans, "Lloc", Llanrug.

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth, (Portdinorwic 726)
BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
BRYNREFAIL: D.G.Ellis, Gweledfa, Brynrefail (Padarn 223)
CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)
CWM-Y-GLO: Mr. Dafydd Price. Ty Capel, Cwm-y-glo. (Llanberis 550)
DEINIOLEN: Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont. (Llanberis 452).
DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)
LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)
NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)
PENISARWAUN: Leslie Larsen, Llygad yr Haul, (Llanberis 533)
TAN Y COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)


### RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf allan ar 28ain Mehefin. Deunydd i law y golygyddion perthnasol ar 20fed Mehefin os gwelwch yn dda.


### AR WERTH

**Un cymysgwr concrit 'Belle Mini Mix' mewn cyflwr da a 3 'casing' drws Boulton & Paul newydd sbon. — Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug.**


# LLYTHYRAU

*55 Pentre Helen,*
*Deiniolen.*

*At y Golygydd,*

*Dymunaf ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i mi yn ystod Etholiad Cyngor Arfon, sef trigolion Dinorwig a Deiniolen. Diolch hefyd o galon am gefnogaeth Cangen Lafur Deiniolen a'r Cylch.*

*Carwn longyfarch y Cynghorydd Jacob James am gael ei ailethol, a dymunaf bob llwyddiant iddo.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Alun Wyn Evans.*

*Bryn Gwenallt,*
*Waunfawr.*

*At y Golygydd,*

*Hoffwn ddiolch i etholwyr Ward Waunfawr (yn cynnwys Betws Garmon, Ceunant a Rhyd-ddu) am fy ethol i'w cynrychioli ar Gyngor Bwrdeisdref Arfon. Gwerthfawrogaf yn fawr iawn yr anrhydedd a roddwyd arnaf a gwnaf fy ngorau i wasanaethu pawb yn y Ward hyd eithaf fy ngallu.*

*O. T. Jones.*

*At y Golygydd,*

*Dymunaf ddiolch i bawb a bleidleisiodd imi yn Etholiad Cyngor Bwrdeisdref Arfon dros ward Deiniolen a Dinorwig. Hoffwn ddiolch hefyd i ffrindiau a chymdogion am eu cymorth i farcio'r cofrestrau a dosbarthu pamffledi, am yr holl gardiau, llythyrau, galwadau teliffon o longyfarchiadau a gefais. Maent yn rhy niferus i'w hateb yn bersonol. Dymunaf ddiolch hefyd i'r ymgeisydd Llafur, Mr Alun W. Evans a'i gefnogwyr am y ffordd y gwnaethont ymddwyn yn ystod ac ar ôl yr etholiad. Parhaf i wneud fy ngorau glas fel Cynghorydd Arfon, 'yn obeithiol,' am y pedair blynedd nesaf. Diolch yn fawr.*

*Yr eiddoch yn ddiffuant,*
*Y Cynghorydd Jacob James.*

*Gwynfryn,*
*Llanrug.*

*Annwyl Syr,*

*ATGOFION AFON GWYRFAI*

*Darllenais gyda diddordeb, a pheth tristwch, am Afon Gwyrfai gan R. O. Pritchard yn Eco mis Chwefror. 'Roedd yn dwyn i gof lu o atgofion hapus i mi, a braidd na theimlwn awel y mynydd wrth ei ddarllen. 'Rwyf wedi pysgota yr hen afon hoff yma am ddeugain mlynedd, o'r Llyn i lawr i Gerrig y Rhyd.*

*Bellach, 'rwyf innau'n mynd yn hen, ond caf ddwyn ar gof a cherdded ei glannau fel o'r blaen a chlywed cŵn 'Cwm Bychan' yn fy herio i fynd adref. Credaf eu bod yn gwarchod yr hen Fynydd Mawr.*

*Hoffwn yn fawr drwy'r Eco gael diolch o galon i 'Now' Plas Isa (brawd R. O. Pritchard) am ei ganiatâd parod bob tymor pysgota i gael mynd ar ei dir at yr hen afon, ac i chwithau William Griffith, Caeau Gwynion.*

*Peth bach oedd gofyn.*
*Peth brwnt cael eich gwrthod.*
*Peth braf cael diolch.*

*J. Roberts.*

*Bryn Hyfryd,*
*Groeslon,*
*Caernarfon.*

*Annwyl Syr,*

*Diddorol iawn i mi oedd darllen ysgrif R.O. Pritchard (Bob Plas) am Afon Gwyrfai, daeth â llawer o atgofion bore oes i mi, pan fyddai fy nhad, y diweddar W.S. Jones yn pysgota.*

*Cofiaf fel y byddai'n codi yn y bore bach ac yn mynd at yr afon, credaf ei fod wedi dal cannoedd os nad miloedd o frithyll yn ystod ei oes. Ond ni ddaru o erioed fwyta tamaid o bysgodyn. Naw ceiniog y pwys oedd eu pris, mae hyn yn mynd yn ôl tua pymtheg a thrigain o flynyddoedd. 'Rwyf yn cofio enwau rhai o'r plu — Coch y Bonddu, Petrisen, Corff Gwyn, Ceiliog Ffesant. Byddai fy nhad yn cael y plu gan Mr Broom oedd yn byw yn y tŷ bychan sydd wrth eglwys Llanbeblig. Ef fyddai'n gwneud y plu.*

*Yn ystod tymor pysgota cadwai fy nhad ei enwair ar hyd ochr y grisiau, a llawer gwaith y gwelais mam yn gwylltio pan yn tynnu llwch pan fachai pluen yn y dwster, neu'n bachu yn ei sgert (llaes pryd hynny). Mae R.O. Pritchard yn sôn am Cwirt — yno y ganwyd fy nhad. Nid ar fin y ffordd fawr y mae ond lled cae o'r ffordd. Hafod Onnen yw enw'r tŷ ar fin y ffordd. Byddai'r diweddar W.G. Thomas (gwerthwr blawd yn y Maes, Caernarfon) a'i deulu yn dod yno ar eu gwyliau yn yr haf. 'Roedd tai haf y pryd hynny ac nid oedd neb yn gwrthwynebu iddynt.*

*Edrychaf ymlaen am lawer ysgrif eto gan Bob Plas, a chofion gorau ato.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*E. Hughes (Mrs)*
*(gynt Arwel, Betws Garmon)*

*32 Stour Road,*
*Corby,*
*Northants.*

*Annwyl Olygydd,*

*GALW SALT LAKE CITY*

*Maddeuwch a goddefwch i mi fy hyfdra fel hyn yn anfon gair neu ddau atoch fel un sydd yn darllen yr Eco bob mis. Diolch i Sydney, fy chwaer, — Mrs Williams, Cae Howel, Penisarwaun Bob tro y caf yr Eco, byddaf yn ei ddarllen yn fanwl trwyddo a chael pleser mawr gan fy mod wedi fy magu yng Nghwm-y-glo. Bûm yn gweithio am tua deng mlynedd ar hugain yn y chwarel. Yn yr Eco byddaf yn gweld yn fynych ryw newydd a fydd o ddiddordeb i mi gan fod yr holl ardaloedd â rhyw gysylltiad â'r chwarel, pan oedd.*

*Gwelais yn rhifyn Ebrill erthygl am un o'r enw John Musgrove, Brynsiencyn gynt, ac sy'n awr yn Salt Lake City, U. D. A. Byddaf yn dra diolchgar os bydd lle yn yr Eco i chwi fy nghofio ato yn annwyl iawn, er bod tros ddeugain mlynedd er pan welais ef. 'Roedd y pryd hynny yn germon (prentis) gyda mi yn Bonc Isa Braich, yn fachgen tuag un neu ddwy ar bymtheg oed. Cofiaf am un adeg pan ddaeth at ei waith i'r sied a dweud wrthyf iddo fod yn chwarae cardiau yn y Barics gyda hogiau, ac iddo golli ei arian i gyd. Wel, 'roeddwn dipyn yn ddig wrtho am fod mor ffôl a gofynnais iddo a fyddai yn dweud ei bader. Yr ateb gonest oedd nad oedd yn gwybod ei bader. Wel, fe ysgrifennais bedair o linellau a gofyn iddo eu dysgu ar ei gof. Ys gwn i a yw'n eu cofio hwy heddiw? Dyma'r pennill bach a ysgrifennais iddo i'w ddysgu.*

*"Rhof fy mhen i lawr i gysgu,*
*Rhof fy enaid i Grist Iesu,*
*Ac os byddaf farw cyn y bore*
*Arglwydd cymer fy enaid innau.*

*Pob bendith i'r Eco.*

*Yn gywir iawn,*
*Harry Thomas,*
*(Tŷ Capel yr Annibynwyr gynt)*


AR WERTH

Royale Pram / Pushchair £25; Baby Walker £4; Car Seat £6; Baby Carrier £2. Llanberis 700.

Uned cawod i'w gosod uwchben y bath £7. Gard atal plentyn bach ar gyfer stof drydan £3. Waunfawr 545.



MODURDY MENAI



**FFORDD CAERNARFON**
**Y FELINHELI**

Ffôn : Portdinorwic 670882

**Perchennog : J. Evans**

# CWM-Y-GLO

UNDEB Y MAMAU — Dymunwn ddiolch i Mrs Owen, Isfryn a Mrs Orritt, Morannedd am drefnu trip Undeb y Mamau i Landudno i weld cynhyrchiad o 'Viva Mexico.' Cynhaliwyd cyfarfod o'r Undeb (adrannau Cwm-y-glo a Llanrug) yn Ysgol Gynradd y Cwm yn ddiweddar. Pwrpas y cyfarfod oedd derbyn yn ôl y blychau casglu tuag at waith Undeb y Mamau mewn gwledydd tramor. Agorwyd y cyfarfod gan y Rheithor drwy weddi a chyfeiliwyd gan Miss C. Hughes. Llywydd y noson oedd Mrs Williams, y Rheithordy. Y wraig wadd oedd Mrs Elwyn Roberts, Glan Ogwen a rhoes sgwrs ddiddorol ac addysgiadol ar waith Undeb y Mamau dros y mor. Diolchwyd iddi gan y Rheithor. Darparwyd te gan Mrs Watkins, Dolwen a Mrs Chick, Mairlys a diolchwyd iddynt gan Mrs Stanley Jones, Llanrug. Diweddwyd trwy weddi.

FESTRI'R PASG — Yn Festri'r Pasg a gynhaliwyd yn Llanrug yn ddiweddar ailetholwyd Mr E.G.Owen, Talgwynedd yn is-warden y Rheithor a Mr R.A.Roberts yn is-warden y bobl. Ailetholwyd aelodau'r Cyngor Plwyfol Eglwysig a derbyniwyd y Fantolen fel un gywir. Mewn cyfarfod o'r Cyngor Eglwysig a gynhaliwyd yn Sant Gabriel penderfynwyd gwneud archwiliad o do yr eglwys a phenderfynwyd prynu pethau angenrheidiol at wasanaeth yr eglwys.

GENI — Llongyfarchion i Mr a Mrs E.O.Roberts, Argraig ar enedigaeth merch fach ar Ebrill 26 — Sara Salisbury, chwaer i Mark.

LLONGYFARCHIADAU — a dymuniadau da i Mr Gwynedd Morris, 2 New Street ar ei ddyweddïad â Miss Susan Jones, 2 Maes Padarn, Llanberis.

PRIODAS — Ein dymuniadau gorau i Mr a Mrs Haydn Pritchard, 23 Dôl Afon ar eu priodas ddydd Sadwrn, Mai 5.

CYDYMDEIMLO — Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Mrs Wardle a'r teulu, Swyddfa'r Post yn eu profedigaeth ddiweddar.

MERCHED Y WAWR — Bu llwyddiant mawr eleni eto ar y noson goffi a gynhaliwyd yn yr ysgol gynradd, nos Fercher, Mai 15.

A'r elw tuag at wibdaith flynyddol pensiynwyr y pentref. Trefnir y wibdaith gan y gangen leol o Ferched y Wawr.

Gresyn nad oes ystafell ymgynnull addas yn y pentref hyd yn hyn. Pe bai gennym un buasai'n hawdd trefnu mwy o adloniant i'r dinasyddion hŷn. O edrych ar yr elw a wnaed, a'r croeso a roddwyd i'r gwerthwyr tocynnau, hawdd gweld fod cefnogaeth gref yn y pentref tuag at ein menter.

Gobeithiwn allu rhoi dyddiad y wibdaith a'r lle y bwriedir mynd yn rhifyn Mehefin Eco'r Wyddfa.

Cafwyd saith raffl, a'r enillwyr oedd: Elwyn Morris, Gareth Price, Delyth Williams, Mrs Hilda Orritt, Medi Jones, Yvonne Hughes a 'Dafydd' (rhif 6804) MBZ. Dymuna'r aelodau ddiolch i bawb am eu cefnogaeth barod.

PÊL-DROED (Cynghrair Gwyrfai) — Ebrill 8 — Tregarth 9 - Cwm-y-glo 2. Michael J. Williams a Paul Jones yn sgorio i Cwm.

Ebrill 22 — Cwm-y-glo 1 - Tregarth 4. Kevin W. Owen yn sgorio i Cwm.

Mai — Cwm-y-glo 1 - Cae Glyn 5. Michael J. Williams yn sgorio.

Mai 16 — Y Felinheli 1 - Cwm-y-glo 1. Michael J. Williams yn sgorio. Gem gyfeillgar o dan 12 oed, Sadwrn, Mai 19 — Cwm-y-glo 6 - Beddgelert 1. Sgorwyr: Robin Jones (3), Iestyn Jones (1), Michael Roberts (1) a Dino Bellini (1).

PENNILL (I Arddwr blaenllaw)

Ar frys yn torri'r glaswellt  
'Roedd Lloyd yn llamu 'mlaen;  
Yn sydyn, peiriant teilchion, —  
Ni chofiodd am y maen!

Er poeni am y ddamwain,  
Daeth ffrind ar dywyll awr.  
Y peiriant — nawr fel newydd,  
A marc ar garreg fawr.

(Y Frân Ddu)

## MUDIAD YSGOLION MEITHRIN ARFON

**Nos Fawrth, Mai 15, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y mudiad yn y Groeslon, pryd yr etholwyd swyddogion am y flwyddyn. Cawsom Mr John Brian Jones, y cyfarwyddwr, yn gwmni inni a gwerthfawrogwyd ei neges yn fawr. Diolch i Mrs Gwenda Davies, Tregarth, Mrs Beryl Jones, Waunfawr a Mrs Glenys Griffiths, y Groeslon am eu gwaith caled fel swyddogion y mudiad yn Arfon. Etholwyd y swyddogion a ganlyn: Llywydd — Mrs Eryl Roberts, Cwm-y-glo; Ysgrifennydd — Mrs Irene Roberts, Waunfawr; Trysorydd — Mrs Glenys Griffiths, y Groeslon; Is-lywydd — Mrs Janet Williams, Tregarth; Isysgrifennydd — Mrs Dorothy Pritchard, y Groeslon.**

## Llyn Peris Mai 1979



# DINORWIG

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL — Nos Iau, Ebrill 22 bu cyfarfod olaf y Gymdeithas am y tymor yn y Ganolfan. Cafwyd cyfarfod amrywiaethol gyda doniau lleol yn gwasanaethu. Cymerwyd rhan mewn adrodd gan Mrs Gladys Evans, a chanu gan Mrs Ellen Jones; Mrs. Maggie Roberts, Teulu Tŷ'r Ysgol, Mrs Katie Griffith. Trefnwyd cwis 'Galwch Fy Her', ar eiriau Cymraeg gan Miss E. Wyn Jones. Dewiswyd y pwyllgor ar gyfer tymor y gaeaf nesaf. I gloi'r noson eisteddwyd i swper wedi'i drefnu gan y chwiorydd. Talwyd diolchiadau gan Mr Hugh Thomas, a Mr John Roberts. Yn absenoldeb anorfod y Parch Ifor L. Williams, Bangor, llywyddwyd gan Mr O. R. Williams.

O'R YSBYTY — Da croesawu adref Mrs J. Jones, Cegin, wedi arhosiad yn Ysbyty Môn ac Arfon. Dymunwn wellhad parhaol iddi, ac i eraill sy'n wael yn eu cartrefi.

LLONGYFARCHIADAU — i Della Wyn Jones, Bronallt ar ei gwaith yn ennill gwobr yr Arholiad Sirol dan 10 oed.

CYMANFA YSGOLION LLANBERIS A DINORWIG — Llongyfarchir y rhai canlynol ar eu gwaith yn ennill gwobrau yn y Gymanfa: Della W. Jones a Donna Wyn Jones, Bronallt, David V. Jones, Alwyn W. Jones ac Eric Wyn Jones, 3 Bro Elidir; Olwen B. Roberts a Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol.

MARW — Yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, wedi gwaeledd hir, bu farw yn 7 mlwydd oed, ar Fai 2, Arfon Roberts, plentyn ieuengaf Mr a Mrs Griffith W. Roberts, Ysgubor. Claddwyd ym mynwent Macpela, Deiniolen Sadwrn, Mai 5. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. Trefor Lewis a Mr Eifion Williams, Disgwylfa. Cydymdeimlir â'i rieni, ei chwaer Glenys, a'i frodyr Emrys a William, a'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd yn eu profedigaeth.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN (Ward Dinorwig) — Ymddeolodd Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir a Mr Renell Williams, Tanyfron wedi cyfnod maith yn cynrychioli'r ward. Diolch iddynt am eu gwasanaeth cyson. Bydd Etholiad ar Fai 24 er ethol dau gynrychiolydd newydd. Mae'r rhai canlynol yn ymgeisio: Mrs Hannah N. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Mr David L. Hughes, 2 Maes Eilian, a Mr Robert E. Williams, 12 Maes Eilian.

DIOLCHIADAU — Dymuna Mr a Mrs Griffith W. Roberts, Ysgubor, ddiolch o galon am bob gofal a ddangoswyd tuag at Arfon, eu bachgen, tra yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, gan y meddygon, nyrsus a staff yr ysbyty. Hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt mewn gair a gweithred yn eu profedigaeth o golli Arfon, gan berthnasau, cyfeillion a chymdogion.

I'R YSBYTY — Aethpwyd a Mr Eurwyn Pleming, 1 Maes Eilian o Ysbyty Môn ac Arfon am driniaeth feddygol bellach yn Ysbyty Sant Thomas, Llundain. Dymunir gwellhad buan iddo.

PRIODI — Dymunir yn dda i Mr John Gwyn Williams, Cefn Coch, Rhiwlas a Miss Einir Ann Jones, Tan-y-buarth Uchaf, ar eu priodas yn Eglwys Sardis (B) ar Fai 12. Gweinyddwyd y seremoni gan y gweinidog, y Parch. Ifor L. Williams (B) Bangor. gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mr Gwilym Jones, Foel.

ETHOLIAD CYNGOR ARFON — Llongyfarchir y Cynghorydd Jacob James ar ei ethol dros Ddeiniolen a Dinorwig ar Gyngor Arfon.

O'R YSBYTY — Croesewir adref wedi arhosiad yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, David W. Jones, 5 Bro Elidir, bachgen bach Mr a Mrs Alwyn Jones.

DIOLCH — Dymuna Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir a Mrs Matilda Ellen Roberts, Yr Hen Ficerdy, Bangor ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a'u cyfeillion am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad, a thros gant o gardiau a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli tad annwyl ar ôl hir waeledd.

Diolch arbennig i staff ysbytai Clatterbridge, Llanelwy a Mon ac Arfon, Bangor am eu gofal tyner ac annwyl trosto. Diolch hefyd i'r Deon a Mrs John Ivor Rees, Eglwys Gadeiriol Bangor am eu gweddïau drosto, a'u rhoddion hael iddo yn ei gystudd, ac wedyn am fod mor barod eu cymwynasau wedi ei farwolaeth. Ein diolchiadau hefyd i'r Parchedig Ronald Wyn Roberts, Deiniolen am fod mor barod i wasanaethu, fel bob amser. Diolch hefyd i Swyddogion Awdurdod Dwr Cymru, Bron Castell, Bangor.

Rhannwyd y rhoddion rhwng Ysbyty Clatterbridge ac Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Diolch i bawb.


Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd  
CANOLFAN DRECIO  
Holwch am ein  
telerau rhesymol



# WAUNFAWR

GENEDIGAETHAU — Llongyfarchion i Anne a Richard Morris, 7 Ael y Bryn ar enedigaeth mab, Gwyn, brawd i Sara.

Hefyd i Carys ac Edgar Owen, Gilfach, 13 Tŷ Hen ar enedigaeth merch, Gwenno Mai, chwaer Elain Medi.

Hefyd i Bethan a Robat Williams, Hafod Rhug ar enedigaeth mab, Llion Rhun, brawd i Ceirion.

DATHLU PEN-BLWYDD — Llongyfarchiadau i Miss Irene Powell, Is Eilian ar ei phen-blwydd yn 70. Cafwyd parti llwyddiannus yn Neuadd yr Eglwys gyda 60 o wahoddedigion.

Llongyfarchion hefyd i Gwion Davies, Bryn Eithin a Carys Owen, Gilfach ar gyrraedd eu un ar hugain oed.

LLWYDDIANT Y PLANT — Llongyfarchiadau i Penny Williams, Bethan Wyn Pritchard a Joanna Marston ar lwyddo mewn arholiadau canu'r piano. Hefyd bu Huw Ynyr Jones, 1 Tanyfron, Rhian Williams, Bro Waun, Adrian Owen, Dolerddi, Kevin Roberts, Swyn y Gwynt a Llion Tegai Iwan, Pen y Berth yn llwyddiannus yn Arholiad Ysgrifenedig y Gymanfa ac fe wobrwywyd nifer o blant yr Ysgolion Sul yn yr Arholiad Llafar.

ENNILL AM ADRODD — Llongyfarchion i Meira Turner ar ennill am adrodd yn Eisteddfod Gadeiriol Carmel.

YN YR YSBYTY — Dymunir adferiad buan i Gwenno Owen, Tref Eilian, sydd yn yr ysbyty.

ADREF O'R YSBYTY — Croeso adref i Mr Hugh Elfet Roberts, 14 Bryn Golau; Miss Catrin Roberts, Bod Afon; Miss Jennie Williams, Weirglodd Goch; Mr Francis Williams, Bryn Golau a Mrs Griffiths, Afallon.

Hefyd bu Mrs Idris Jones, Goleufryn mewn ysbyty pan ar ei gwyliau yn Iwgoslafia. Y mae'n gwella'n awr ac yn nhŷ ei chwaer yng Nghroesoswallt.

PROFEDIGAETH — Cydymdeimlir â Mrs M. A. Owen, Tref Eilian ar golli ei phriod a Mrs Williams, Gwynllys ar golli ei chwaer.

PRIODAS — Llongyfarchiadau i Trystan Iorwerth, Cartrefle ar ei briodas a Carolyn Huws, Garth, Maesteg ar Fai 5. Bydd y ddau yn cartrefu yn Neiniolen.

DYWEDDÏO — Llongyfarchion i Wendy Ann Jones, Llwyn Afon ar ei dyweddiad â David Evans o Gaeathro.

SYMUD TŶ — Symudodd Jac Jones a Siôn o'r Rhiw yn ddiweddar. Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd yn Llanberis.

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN — Mae Irene Roberts, Pant Teg wedi cael ei dewis yn Ysgrifennydd Cylch Arfon o'r mudiad. Dymuniadau da iddi. Mae'n dilyn Beryl Jones, Dol y Coed. Diolch iddi hithau am ei gwaith da.

CARTREF EITHINOG (Cheshire Homes) — Casglwyd £51.28 tuag at yr uchod. Diolchir i'r casglyddion: Owilda Williams, Nansi Griffiths, Gwenno Owen, Ann Marston, Mrs R. O. Jones, Mrs P. J. Evans ac i bawb a gyfrannodd.

CYNGHORYDD DOSBARTH — Llongyfarchion i Mr O.T.Jones ar gael ei ethol yn Gynghorydd Dosbarth yr ardal. Cyfle hefyd i ddiolch i'r cynghorydd Dafydd Iwan am ei waith caled a da yn ystod y tair blynedd diwethaf.

YSGOL FEITHRIN — Sefydlwyd ein hysgol feithrin ni yn y Waunfawr ar Ddydd Gŵyl Dewi 1972. Cyn hynny bu cryn drafodaeth yn y pentref a sôn am rwygo'r gymdeithas ac yn y blaen, ond erbyn hyn mae hi'n rhan o'n bywyd.

Festri Croesywaun fu'r cartref o'r dechrau, a charped hwn a bwrdd y llall oedd ein dodrefn cyntaf. Wedyn fe gafwyd arian o'r Carnifal ac o nosweithiau a boreau coffi di-ri' a phrynwyd celfi a theganau pwrpasol.

Ar y dechrau, yr oedd yna nifer go lew o blant yno efo Marion Iwan, ond ar ôl agor yr Hafod yn yr Ysgol Gynradd, a diolch am hyn, dim ond 9 plentyn bach sy'n dod yno at Irene Roberts a Jeanifred Jones. Rhwng Marion Iwan a hwythau, bu yno lawer o athrawesau ymroddgar, a diolch yn fawr iawn i bob un ohonynt am eu gwasanaeth.

Mae'r ysgol mor fyw ag erioed a chroeso i bob plentyn bach ddod yno.

Yn ystod yr Wythnos Feithrin Genedlaethol cafwyd pnawn agored ar ddydd Mawrth, Mai 1, a daeth llu o blant a fu'n mynychu'r ysgol er y cychwyn a rhai mamau yno i gael paned o de a sgwrs, a'r plant yn cael tynnu eu llun. 'Roedd balwnau, beiros a chrysau T arbennig gan y Mudiad Ysgolion Meithrin ar werth yno. Treuliwyd amser hapus iawn.

DALIER SYLW — mae dyddiad y Rali Geir wedi ei newid o nos Wener, Mehefin 8 i NOS FERCHER, MEHEFIN 6. A fuasai pawb sy'n bwriadu dod, yn rhoi eu henwau i Glenys Jones, Rhandir Mwyn erbyn Mehefin 2.

MERCHED Y WAWR — Nos Iau, Ebrill 26 ymunodd cangen Llanrug â ni mewn cwis ysgafn o dan ofal John Roberts. Estynnwyd croeso cynnes iddynt gan ein llywydd, Alma Jones, a rhoddwyd llongyfarchiadau calonnog i Iris Hughes ar ei dyweddïad, ac i Carys Owen ar gyrraedd ei hun ar hugain. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Gweneirys Jones a Mrs N. Lovatt. Darparwyd lluniaeth ysgafn gan aelodau'r gangen, ac enillwyd y raffl gan Mrs Beth Jones, Llanrug.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mai 24 pryd y bydd Mrs Vaughan Jones yn ein tywys ar daith o gwmpas y Waunfawr. Cychwynnir o'r Llythyrdy am 7.15 o'r gloch.

Bydd y tymor hwn yn gorffen gyda Rali Geir nos Iau, Mehefin 28.

CLWB GWYRFAI — Cynhaliwyd Ffair Wanwyn y clwb nos Iau, Mai 17 a bu'n llwyddiant eithriadol. Diolchodd y llywydd, y Parch Trefor Jones i'r cyhoedd am gefnogi'r ffair ac i aelodau'r clwb am eu cymorth ym mhob ffordd.

I'R DOSBARTHWYR LLAETH a fu wrthi mor egniol ar y tywydd mawr, Mawrth 17 a 18, 1979.

Gair o ddiolch am yr ymdrech  
Wnaeth y gŵr i rannu'r llaeth,  
A'r lluwchfeydd yn cuddio'r pentre'  
Pethau'n mynd o ddrwg i waeth,—  
Mr Parry, y gŵr rhadlon,  
Siriol hefyd ar bob pryd,  
Gweithgar, bywiog a diddiogi,  
Un wrth gwrs ar fynd o hyd.

Ef a'r plant yn prysur rannu  
Gwin y fuwch iachusol faeth,  
Helpu'i gilydd i ddosbarthu  
Y poteli llawn o laeth, —  
Dyma deulu a chyfeillion  
Haedda glodydd siŵr gen i,  
A phe byddai'r rhain yn streicio  
Beth a fyddai'n hanes ni?

Diolch ichwi bawb fu wrthi  
Gyda'r gorchwyl dirion rai,  
Haeddwch fwy na chân 'rwy'n gwybod  
Ond yn wir ni allaf lai  
Na rhoi tonc ar dant yr awen  
Ichwi ffrindiau bach a mawr,  
Ie i chwi fu'n brwydro'n galed  
Bendith arnoch oll yn awr.

Tom Williams,  
Drws y Nant,  
Y Waun Fawr.

# TAN-Y-COED

MABOLGAMPAU YSGOL BRYNREFAIL — Dyma gyfraniad plant Tan-y-coed i lwyddiant Mabolgampau Ysgol Brynrefail, Mai 15.

Margaret Ellen Roberts, Tai Newyddion — Traws Gwlad (1af), 1500m (1af), 800m (1af), 400m (1af), 100m (3ydd), 200m (3ydd), Picell (4ydd), Ras Gyfnewid, 1 o 4 (1af). Margaret enillodd y gwpan am ennill y pwyntiau uchaf yn yr ornest.

Caroline Ann Jones, Pant Clyd — yn ei hadran hi: 1af, 2il, 3ydd.

Linda Wynne Jones, Pant Clyd — 400m (3ydd), 800m (4ydd), 200m (5ed), 100m (6ed), Ras Gyfnewid (4ydd).

Robina McCamm, Rallt — 100m (4ydd).

Enillodd Ann a Linda dystysgrif am gerdded 16 milltir ddydd Sadwrn, Mai 19 gyda pharti o'u hysgol. Pwrpas y cerdded oedd casglu arian tuag at Oxfam. Rhyngddynt casglodd Ann a Linda dros £29.

Bu Margaret Roberts, Robina McCamm a Kristy McCamm yn treulio wythnos ym mis Ebrill yn Avimore yr Alban yn sgio. Bydd y tair yn ymarfer sgio yn gyson yn y ganolfan yng Nghapel Curig.

CANU PIANO — Llongyfarchiadau i Manon Llwyd Evans, Carwyn ar ei llwyddiant yn yr arholiad canu piano dan nawdd 'The Royal Schools of Music'. Pasiodd Radd 3 (teilyngdod). Disgybl i Miss Clarice Williams, Llanberis yw Manon.

GWYLIAU — Dymuniadau da i Mr a Mrs Eric Morris sydd ar eu gwyliau yng Nghanada. Y maent yn aros gyda Mr Morris Parry, Bron yr Haul gynt.

Y GYMANFA — Yn y Gymanfa yn Engedi, Caernarfon Sul, Mai 6 gwobrwywyd 19 o blant a Mrs Catherine Evans, Preswylfa o Ysgol Sul Tan-y-coed am eu llwyddiant yn yr Arholiad Llafar.

Dan 3: Jonathan Prys Williams, Prysgol. Dan 4: Tudor Wyn Jones, a Mark Wyn Jones, Dolwen. Dan 4: Aled Parry, Ael-y-Bryn. Dan 5: John Elwyn Jones, Dolwen a Jonathan Robert Williams, 7 Glanmoelyn. Dan 6: Shoned Rees Roberts, Ty'n Llwyn, Ffion John Williams, Fferm Minffordd, Annwen Parry, Ael-y-Bryn, Sarah de Boo, Bryn Cwil. Dan 7: Rebeca Ann Hughes, Rallt Deg, Lona Roberts, 1 Tai Minffordd, Wyn Parry, Ael-y-Bryn, Victoria de Boo, Bryn Cwil. Dan 8: Simon Blanchard Williams, 7 Glanmoelyn, Alwena Roberts, 1 Tai Minffordd. Dan 9: Bethan Lewis Parry, Ael-y-Bryn. Dan 11: Glenda Roberts, 1 Tai Minffordd a Richard James Roberts, Prysgol.

Hefyd gwobrwywyd Manon Llwyd Evans, Bethan Lewis Parry ac Alwena Roberts am eu llwyddiant yn yr Arholiad Ysgrifenedig dan 9 oed, a Vaughan Llewelyn Hughes, Carys Lloyd Jones a Glenda Roberts dan 11 oed, a Margaret Ellen Roberts a Linda Wynne Jones dan 14 oed.

Margaret, Manon a Vaughan oedd yn gwasanaethu yn y gwasanaeth defosiynol ar gychwyn cyfarfod yr hwyr yn y Gymanfa.

Ym Methel, Pen-y-groes, Mai 15 derbyniodd pedwar o blant Ysgol Sul Tan-y-coed wobr am eu llwyddiant yn Arholiad Sirol Henaduriaeth Arfon, sef Bethan Lewis, Carys Lloyd Jones, Vaughan Llewelyn Hughes a Margaret Ellen Roberts.


**CARPEDI A BLEINDS**

Gwasanaeth Glanhau Carpedi yn eich tŷ (peiriant stêm)

Cewch ddewis eich carped yn eich tŷ  
neu'r storfa (ffoniwch gyntaf)

**ORIAU BUSNES — UNRHYW DDIWRNOD  
AC UNRHYW AMSER**

**JAMES A. WILLIAMS  
ARBENIGWR CARPEDI  
RHOSGADFAN**

**FFÔN: LLANWNDA 830796 (unrhyw amser)**



**Wavell Roberts**  
**CIGYDD**  
**LONDON HOUSE  
LLANRUG**  
**Ffôn: Caernarfon 3574**  
*PEN CIGYDD Y FRO!*  
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus  
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta  
Archebion ar gyfer y rhewgist  
**MYNNWCH Y GORAU  
A DEWCH ATOM NI!**



E.&E.M. GREEN  
**SIOP GRON**  
**A SWYDDFA'R POST**  
**PENISARWAUN**  
**Ffôn: PADARN 272**  
**NWYDDAU GROSER  
FFRWYTHAU A LLYSIAU FFRES**

# LLANBERIS

LLONGYFARCHIADAU – i Rosemarie Foulkes, Stryd Newton, Valerie Ann Parry a Mair Wyn Hughes ar gyrraedd eu pen-blwydd yn ddeunaw oed.

PRIODI – Yn ddiweddar yn Abergafenni priodwyd Alan Lloyd, mab Mr a Mrs R. Lloyd, 14 Dôl Elidir a Gaynor Davies, Y Graig, Ffordd y Capel, Abergafenni.

Hefyd yng Nghaernarfon priodwyd Gwyneth Morris, 54 Dôl Elidir a Haydn Pritchard, 23 Dôl Afon, Cwm-y-glo.

Ein dymuniadau gorau i'r ddau bâr ifanc.

BEDYDD – Dydd Sul, Ebrill 22 yn Eglwys Sant Padarn bedyddiwyd Marie Louise Carr, merch fach James a Winifred Carr, Dôl Elidir gan y Canon Alun Jones. Y tad bedydd oedd Mr Stephen Carr, a'r fam fedydd oedd Gwyneth Jones, Y Llythyrdy a Susan Williams, Caernarfon.

LLONGYFARCHION – i Awen Forrester-Addie, Goleufryn, Stryd Newton ar ei llwyddiant yn ei harholiadau teipio yng Ngholeg Technegol Bangor. Bu Awen yn llwyddiannus hefyd ar gael ei phenodi yn athrawes yn Ysgol Tryfan, Bangor.

CARNIFAL – Nos Sadwrn, Mai 12 yn y Ganolfan cynhaliwyd Disgo Dewis Brenhines '79. Maxine Thomas, Ffordd Tŷ Du oedd yr eneth lwcus eleni a'i gweinyddesau fydd Gillian Evans, Stryd Newton a Nia Wyn Griffith, Llwyn Piod.

Mae tocynnau'r Raffl Fawr ar gael gan William Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, neu unrhyw aelod arall o'r pwyllgor. Mynnwch eich tocyn raffl yn awr, mae'r gwobrau yn werth eu hennill.

Dydd Sadwrn, Mehefin 9 cynhelir Taith Gerdded Flynyddol y Carnifal. Cefnogwch y cerddwyr, neu os ydych yn teimlo'n heini, beth am gerdded? Ffurflenni ar gael gan Ysgrifennydd y Carnifal, Alwyn Tomos, Foelas, Stryd Newton.

Menter newydd eleni fydd Noson Bop – 'Padarn Roc' – mae grwpiau adnabyddus fel Edward H. Davies, Hebog, Cyffro, Crysbas, Trydan a Mags i'n diddori. Tocynnau ar gael ymhen wythnos.

Cofiwch mai dim ond naw wythnos sydd ar ôl tan y Carnifal – meddyliwch am wisg ffansi ddoniol neu fflôt. Dowch yn llu i fwynhau eich hunain yng Ngharnifal hen bentra bach Llanber.

DIOLCH – Dymuna Rosemarie Foulkes, Stryd Newton ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

ARWERTHIANT – Cynhaliwyd arwerthiant llwyddiannus gan Gôr Genethod Llanberis yn Festri Gorffwysfa.

CYMANFAOEDD – Y Sul cyntaf o'r mis cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul Ebeneser, Deiniolen, Y Tabernacl, Cwm-y-glo, Nant Padarn a Jerusalem, Llanberis yng Nghapel y Tabernacl. Cafwyd dau gyfarfod da iawn – y plant yn y prynhawn dan ofal y Parch Hugh John Hughes, gyda chymanfa ganu yn yr hwyr.

Y Sul dilynol cafwyd Cymanfa Ysgolion Sul Deiniolen, Capel Coch, Gorffwysfa, Preswylfa, Llanberis a Rehoboth, Nant Peris yng Nghapel Coch.

LLONGYFARCHION – Estynnwn longyfarchion i'r rhai canlynol. Maent yn nain a thaid unwaith eto:

Mrs Bob Davies, Maes Derlwyn; Mr a Mrs E. Wilson Hughes, Mr a Mrs William Jones, Padarn Stores, Mrs Eluned Mai Jones, Rhes y Cae, Mrs Edith Hughes, Cadfan – mae hi wedi cael ei gwneud yn hen-nain.

O GANADA AC AWSTRALIA – Croeso i Jean, merch Mrs Davies, Snowdon Garage adref o Ganada.

Hefyd croeso i Nellie, merch y diweddar Mr a Mrs Bob Owen, Rhes Efrog a'i phriod, ei mab a'i wraig yn ôl i'r ardal. Dymunwn wyliau hapus iddynt.

DIOLCH – Dymuna Mrs Annie Davies, Gwenfro, Tom, Rallt Goch, a'r teulu oll ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli Gwyneth Rees Jones, 1 Rallt Goch, Llanberis. Chwaer a modryb annwyl. Bu pob gair o gysur a gweithred o dosturi yn gysur a diddanwch iddynt yn y dyddiau blin. Carem ddiolch yn arbennig i Dr. Pamela Jones a Nyrs Marian am eu gofal diflino ohoni yn ei chystudd ac i'r llu cyfeillion a ymwelodd a hi yn gyson yn ystod ei gwaeledd hir. Bu hyn yn gysur mawr iddi ac i ninnau oedd yn gweini arni.

MARW – Yn ystod y mis trallodwyd nifer o deuluoedd yr ardal drwy golli rhai annwyl. Cydymdeimlir â'r cyfan yn eu galar a'u hiraeth.

Cafodd **Miss Gwyneth Rees Jones**, Rallt Goch, waeledd caled – ond dioddefodd y cyfan yn dawel. Bu'n weithgar ar hyd ei hoes gyda phob achos da, a bydd colled fawr ar ei hôl. Cydymdeimlwn â'i hunig chwaer, Annie Davies, a'i nai Tom Jones yn eu galar.

Collodd **Mrs Janet Davies, Snowdon Garage** briod tawel a charedig yn William Davies. Roedd yn fawr ei barch gan drigolion y pentre'.

Ar ôl cystudd hir a blin bu farw **Mr Harry Parry, Maes Padarn**, bachgen hwyliog a chwmni difyr i'w gyfeillion bob amser. Estynnir gydymdeimlad â'i weddw.

Cymeriad tawel eithriadol oedd **Mr W.J. Davies, Maes Padarn**, a fu farw ar ol blynyddoedd o ddioddef tawel. Brodor o Dan y Coed ydoedd ond wedi byw yma ers blynyddoedd maith. Cydymdeimlwn â'i weddw a'r plant yn eu galar.

GWAELEDD – Mae amser maith er pan fu cymaint o'r ardalwyr yn wael – rhai yn eu cartrefi ac eraill yn yr ysbytai. Yn ei gartref y tarawyd Mr Evan Wilson Hughes yn wael, ond da deall ei fod yn gwella.

Wedi dod gartre o'r ysbyty ac wedi gwella mae – Miss Jennie Gruffuth, Manchester Row; Mr Jack Roberts, Maes Padarn; Mrs Ceinwen Jones; Mr W.D.Williams, Bethesda Street.

Yn yr ysbyty mae: Mrs Pierce Jones, Bryn Peris; Mrs Gwawr Owen, Newton Street; Mr Mansel Owen, Gorthmaelog; Mrs Martin Owen, Newton Street; Mr William Parry, York Terrace.

Dymunir iddynt oll adferiad llwyr yn fuan iawn.

ENNILL TARIAN – Llongyfarchion i Melanie Sellars , Goddman Street ar ennill Tarian yn Ysgol Brynrefail Llanrug am redeg. Bydd yn ymgeisio yn Nherialon y Sir ym Mangor yn ystod y dyddiau nesaf. Bob llwyddiant ichi ymhellach, Melanie.

## PLISMON LLANBÊR WEDI EI DDAL



*Cwnstabl Howard Carl Lacey, Llanberis a Miss Eluned Hughes, Ffordd Pandy, Caernarfon ar ôl eu priodas yng Nghaernarfon ar Fai 19. Mae'r briodferch yn gweithio yn ffatri ddillad Glyn, Llanberis. Yn nhŷ gorsaf yr heddlu Llanberis y bydd y ddau yn ymgartrefu. –Llun: Lynn Owen-Rees.*

DIOLCH – Dymuna Mrs Gwyneth Lloyd Roberts, Merddyn Coch ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra roedd yn ysbyty Dewi Sant, Bangor yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Susie Roberts, Dol Ellian ddiolch i bawb a fu mor garedig â hi yn ei phryder ynghylch hynt ei merch, Dilys, a'i theulu, sydd yn byw yn Uganda. Rydym yn falch iawn o glywed ei bod wedi gallu dod i gysylltiad â Dilys ar ôl cyfnod hir o ddistawrwydd.

DATHLU – Dymuna Mrs A. Williams, Glanffynnon, Llanrug ben-blwydd hapus iawn i'w mam, Mrs Griffiths, 2 Plastirion, Llanberis ar achlysur ei phen-blwydd yn 96 oed.

## BETH YW'R ACHLYSUR?



*Dyma lun o'r oes a fu sydd wedi achosi penbleth. Pwy? Pryd? Ble? Pa achlysur? Tybed all rai ohonoch ein goleuo ar y mater? Anfonwch air.*


**WILL a VAL GUY**

**TREFLYN STORES**

**BETHEL**

**Bwydydd, Melysion, Teganau a Diodydd ac yn awr dewis o Ddillad Plant**

**Y FELINHELI 670 237**

**E.W.Pritchard**

**CENTRAL GARAGE**

**Llanberis**

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU

CEIR AR GYFER PRIODASAU

GWASANAETH TACSI

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

**AR FAES CAERNARFON**
**1938**

**Beth yw'r utgyrn glywa'i'n seinio?**
**Band y Waun sydd ar y Maes;**
**Eco'r cornets sy'n y Castell,**
**A'r trombôns a'u seiniau llaes;**
**Pwy yw nacw? Dafydd Trevor,**
**Gyda'i faton yn ei law;**
**Clod a bri gaiff 'Royal Marged'**
**Os y deil heb fwrw glaw.**
*Glan Rhyddallt.*

**SEINDORF Y WAUNFAWR**
**1947**

Fel hyn y disgrifiodd Mr D. G. Trevor, 'tad' un o seindyrf enwocaf Arfon, ei atgofion dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Yr oedd Dafydd Trevor (fel y gelwid ef) yn 72 oed ar y pryd. Pwy yn well i ddweud hanes y seindorf yr adeg hynny, 1947, na'r arweinydd medrus ei hun?

Dyma brofiad D. G. Trevor, fel y cefais ef yn un o goflyfrau fy nhad wedi ei gadw'n ofalus.

"Yn ddeuddeg oed euthum gyda dau frawd i wrando ar seindorf y Waun, – seindorf bres yr adeg honno – yn ymarfer. Y tro nesaf yr ymgynullodd y seindorf yr oeddym ein tri yn aelodau ohoni. Talai'r aelodau eraill hanner coron y mis tuag at y cyrn ond cawsom ni, hogia,' gyrn am ddim.

Chwarae cornet yr oeddym ein tri, – Tom Trefor, Cae Ffynnon, Waunfawr; y diweddar Griffith Trefor, a fu wedi hynny yn aelod o seindorf Tŷ Croes, Sir Gaerfyrddin, a minnau.

Y mae gennyf atgofion lawer am y blynyddoedd cynnar hynny. Dyna'r gystadleuaeth honno rhwng deg o seindyrf yn Mhwllheli; pob seindorf yn rhy agos i'w gilydd a gorymdeithio at Whitehall a chanu'r darn drwodd yno. Yr oedd pum seindorf yn canu wrth sodlau ei gilydd. A dyna row oedd honno. Ni chafodd neb wobr y diwrnod hwnnw.

Cofiaf hefyd chwarae'r 'Haleliwia Corws' mewn cystadleuaeth yn Llangefni, a'r beirniad, Dr Joseph Parry, yn dweud y byddai'n drît i Handel ei hun glywed Seindorf y Waun yn chwarae!

Melys yw'r atgofion am y teithiau casglu – er enghraifft, yn chwarae ar Sgwar Llangefni fin hwyr o haf a llond y sgwâr o bobl yn canu emynau i gyfeiliant y seindorf!

Bu'r seindorf mewn cysylltiad maith â'r Urdd, ac â'r Aelwydydd wedi hynny. Seindorf y Waun a arweiniai blant yr Urdd i Gastell Caernarfon pan ymwelodd Tywysog Cymru a'r dref.

Bu hogiau'r Aelwyd yn werthfawr iawn. Pan alwyd cyfran helaeth o aelodau'r seindorf i'r lluoedd yn ystod y rhyfel diwethaf, bechgyn yr Aelwyd a lanwodd y bwlch. Bu dau o fechgyn y Waun yn canu'r Corn Gwlad yn eisteddfod ieuenctid y sir.

Yn awr y mae bechgyn yr Aelwyd yn cael eu galw i'r lluoedd a dynion o Lanrug yn llenwi'r bwlch newydd.

Y mae dau o'r aelodau hynaf newydd ymneilltuo o Chwarel Dinorwig, y ddau yn tynnu at eu pedwar ugain, William Hughes o Gwastadfaes a John Pritchard.



Y ddau aelod ieuengaf ydyw John Rhyd Humphreys, Minafon a Maurice Evans, Cefn Coed, y ddau yn bedair ar ddeg mlwydd oed, ac yn Ysgol Ramadeg Caernarfon.

Seindorf o chwarelwyr gan mwyaf ydyw. Wedi diwrnod caled o waith yr ymarferir. Ânt â'u dawn i ddiddori cleifion yn yr ysbytai. Yn ddiweddar cawsant groeso brwdfrydig yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

Ddwy waith, enillasant y drydedd wobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol – yng Nghaernarfon yn 1935 ac yn Ninbych yn 1939.

Eleni yr oedd dau o'r aelodau yn dilyn rhawd seindorf y Waun o bell – Leslie Jones, 12 Dôl Erddi, o'r Aifft, a Douglas Oliver, Penclip, o Balesteina.

Gwyddant fod y seindorf yn dal i fynd rhagddi er gwaethaf y gwasgaru.

Ac mewn cartrefi yn Arfon y mae rhai o gyrn pres yr arloeswyr yn aros: creiriau mud, ond amhrisiadwy bellach."

Dyma'r englyn sydd ar garreg fedd Thomas Williams, Arweinydd y Band, Llanberis a Llanrug.

**Wele'r annwyl arweinydd - yn ei fedd;**
**Un a fu'n ŵr celfydd**
**Yn creu nwyf â'r cyrn efydd;**
**'E glyw gorn ei Dduw ryw ddydd.**
*Glan Rhyddallt.*

## O'R GENEDLAETHOL

Y mae holl dderbyniadau Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch newydd droi chwarter miliwn o bunnau – ac y mae'n rhaid cael chwarter miliwn arall erbyn mis Awst os yw'r Ŵyl am dalu ei ffordd. Y mae'r derbyniadau hyn yn cynnwys arian tocynnau, grantiau, rhoddion a thâl cystadlu ond heb gynnwys y llogau sydd i ddod o Fanc y Beirdd.

Er i'r swm aruthrol hwn o arian ddod i law yn gynnar yn hanes yr Eisteddfod rhybuddiwyd y bydd codi'r chwarter miliwn arall mewn cyn lleied â phedwar mis yn dasg aruthrol.

Hyd yn hyn, derbyniwyd £7,000 yn dilyn yr Apêl a wnaed ddechrau mis Mawrth.

## BANDIAU PRES

Y mae trefnwyr yr Eisteddfod wrth eu boddau gyda'r ymateb i gystadlaethau Bandiau Pres eleni ac y mae'r arbrawf o gynnal cystadlaethau'r bandiau ar y dydd Sadwrn yn hytrach na'r dydd Llun arferol yn addo'n dda ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd llefarydd o Swyddfa'r Eisteddfod y bydd wyth awr o gystadlu i gyd gydag wyth band yn Nosbarth A, pedwar yn Nosbarth B, saith yn Nosbarth C, pump yn Nosbarth D, pymtheg o unawdwyr a phum pedwarawd. Dim ond un band ieuenctid sy'n cystadlu.

## CYSTADLEUWYR

Ar wahân i Adran y Dysgwyr, bu'r ymateb i'r cystadlaethau yn galonogol iawn, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrth y Pwyllgor Gwaith nos Lun diwethaf.

Y mae bron i 2,500 o bobl yn cystadlu am werth dros £17,000 o wobrau.

Mynegwyd llawenydd ynglŷn â nifer y corau sy'n cystadlu – 40 ohonynt rhwng pob adran gyda saith o gorau merched ac wyth yn ymgeisio yn yr ail gystadleuaeth gorawl.

Yn y sefyllfa sydd ohoni nid yw'r Trefnydd yn rhy anhapus ychwaith mai dau sy'n cystadlu yn y brif gystadleuaeth i gorau cymysg.

Yn yr adran lenyddol, dywedodd fod yr ymateb yn eithriadol o lwyddiannus a'i chymryd drwyddi draw.

Bu'r cystadlu fel a ganlyn: Adrodd: 364; Cerdd Dant: 86; Cerdd: 337; Offerynnol: 128; Bandiau: 45; Alawon Gwerin: 116; Symud a Dawns: 35; Ambiwlans: 21; Llenyddol: 787; (Dysgwyr: 16); Drama: 73; Actio Drama: 25; Cerdd Dant (cyfansoddi): 46; Cyfansoddi, Alawon Gwerin: 1; Gwyddoniaeth a Thechnoleg: 5; Celf a Chrefft: 642.

## LLYWYDDION

Bydd Archesgob, Aelod Seneddol a Chynghorydd yn rhannu llwyfan yr Eisteddfod eleni fel llywyddion y dydd.

Dewiswyd y Parchedicaf G. O. Williams, Archesgob Cymru, Dafydd Wigley, A.S., ac I. B. Griffith yn llywyddion y dydd.

Y mae'r Dr. G. O. Williams yn frodor o Benisarwaun ac yn gynddisgybl yn ysgol y pentref ac Ysgol Brynrefail. Graddiodd mewn Saesneg a Diwinyddiaeth yn Rhydychen, a bu'n gurad yn Ninbych, yn ddarlithydd yng Ngholeg Llanbedr ac yn Warden Neuadd Breswyl yr Eglwys ym Mangor cyn mynd yn Brifathro yng Ngholeg Llanymddyfri rhwng 1948 a 1957. Y mae'n Esgob Bangor er 1957 ac Archesgob Cymru er 1971. Y mae'n gymrawd er Anrhydedd o Goleg Iesu, Rhydychen ac yn llywydd Cyngor Gwlad Gwynedd.

## Y CO BACH YN LLANRUG

**Bydd Cwmni Recordio Sain yn ysgol gynradd Llanrug ar Fehefin 6 i wneud record o'r Co Bach.**

**Gwahoddir trigolion y fro i fod yn gynulleidfa yn ystod y recordiad.**

**Bydd Arwel Jones yno yn arwain y noson ac yn 'codi'r to.'**

**Nid oes ond 150 o docynnau ar gael, felly, y cyntaf i'r felin . . . Pris y tocynnau yw 30c (oedolion) a 15c (plant). Cysylltwch ar unwaith ag unrhyw un o'r rhai canlynol: Mrs Vera Williams, Awelon, Ffordd yr Orsaf; Mrs Margaret Jones, Dwyros; Mr T. Thomas, Berwyn. Bydd yr elw tuag at Eisteddfod Gadeiriol Llanrug.**


YN EISIAU

**Hen Lyfrau Cymraeg**

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU – RECORDIAU – CARDIAU

**SIOP Y PENTAN**

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

# SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

TRAED POENUS

Dydd Sadwrn, Mai 19, aeth cant o blant o'r ysgol ac amryw o athrawon, ar daith gerdded o 16 milltir trwy Goedwig Gwydr. 'Roedd yr ymdrech yn rhan o brosiect 'Blwyddyn Ryngwladol y Plentyn' i godi arian i helpu gwahanol achosion yn Lesotho. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio at brosiect arbennig yno, sef rhedeg gwasanaeth meddyg awyr. Nid hwn yw'r tro cyntaf i Ysgol Brynrefail gymryd rhan mewn ymgyrch o'r fath; y maent eisoes wedi dod i'r brig trwy godi arian at achosion eraill yn y blynyddoedd diwethaf. Trefnwyd y daith gan Mrs Jean Pleming.

SÊR RADIO

Bu tîm o bedwar o fechgyn o'r chweched dosbarth, sef Emyr Griffiths, Euron Griffiths, Dewi Williams ac Eifion Jones yn cystadlu mewn tîm cwis, y rhaglen radio 'Cais am Gais', yn y rownd gyn-derfynol yn erbyn tîm o Ysgol y Berwyn, y Bala ym Mhorthmadog ddydd Gwener, Mai 18. Llongyfarchiadau i chwi fechgyn ar eich llwyddiant, a phob lwc yn y rownd derfynol yn erbyn tîm o Rydfelen yn Aberystwyth yr wythnos nesaf.

SIOE FFASIWN

Rhaid crybwyll y modelau ifanc o'r chweched dosbarth a gymerodd ran mewn arddangosfa ddillad Laura Ashley ym mhlas Glynllifon ddechrau'r mis. Diolch i Mrs C. Lloyd am ddewis merched mor ddeniadol, sef Nia, Karen, Shân, Carol, Rhian ac Anita. 'Roedd yr elw tuag at yr Eisteddfod yng Nghaernarfon.

EISTEDDFOD YR URDD

Yn olaf, carwn roi pob cefnogaeth a lwc dda i gor adrodd genethod y chweched dosbarth, a dymuno pob llwyddiant iddynt yn Eisteddfod yr Urdd ym Maesteg ar Fai 31. Maent eisoes wedi ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod y Sir ym Mangor ac yn Eisteddfod Mon. Edrychant ymlaen am y trip i'r De. Diolch i Mr. A. Pleming am eu hyfforddi.

Pob lwc hefyd i Rhian Owen, Llanberis, ym Maesteg. Mae Rhian eisoes wedi ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar yr unawd dan 15 oed, ac yn gobeithio cipio'r wobr ym Maesteg eleni.

DIOLCH / CROESO

Oherwydd Arholiadau Lefel A, bydd Dewi Williams, Seion yn gorffen ei waith o gynorthwyo gyda pharatoi'r dudalen hon y mis hwn. Mae Dewi wedi gwneud ei waith yn drwyadl yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, ac yn ei le am y flwyddyn nesaf bydd Eira Wyn Jones, Deiniolen. Mae Eira ar ei blwyddyn gyntaf yn y chweched dosbarth. Croeso i'r Eco, Eira! Diolch Dewi!



*Alun Roberts a Brian Lomas yn derbyn siec o £50 gan Mr. W.G. Jones (Banc y Nat. West.).*

GWAITH CYMDEITHASOL

Llongyfarchiadau hefyd i Mr Howyn Jones a disgyblion o'r ysgol a fu'n llwyddiannus mewn prosiect rhwng ysgolion Cymru i ddatblygu eu hymwybyddiaeth yn yr amgylchfyd. Cafodd yr ysgol wobr o £50 am helpu gyda chae chwarae Pwll Moelyn, Llanrug. 'Roedd y seremoni gyflwyno yng Ngwesty'r St. George, Llandudno ar Fai 9. Bu Mr H. Jones a dau o fechgyn o'r ysgol, Brian Lomas ac Alun Roberts 4D yno i dderbyn y wobr a chynrychioli Ysgol Brynrefail.

TRIPIAU

Yn ystod y mis hwn hefyd trefnwyd gwahanol dripiau i roi siawns i'r plant ymarfer yn eu hysgrifennu creadigol. Bu plant y dosbarth cyntaf yn Abergwyngregyn yn gweld y rhaeadr. Ymwelodd yr ail ddosbarth â Llanddwyn, a'r drydedd flwyddyn a Phenmon. Aeth Mrs A. Owen a Mr Harri Jones a thrip o blant yr ysgol hefyd i ymweld â chrochendy enwog yn Stoke-on-Trent. Cafwyd diwrnod difyr iawn yno, a gobeithiwn eu bod wedi mwynhau eu hunain.

## "WELSH BOTANOLOGY RHAN I A LLYSIEUAETH GYMRAEG 1813" gan HUGH DAVIES, F.L.S.

**O bryd i'w gilydd, byddaf yn hoff o fwrw golwg ar y llyfr uchod. Cyhoeddwyd y llyfr, neu'n wir y ddau lyfr, yn 1813. Mae'r rhan gyntaf yn rhoi enwau planhigion Môn gyda'u lleoliad ar yr ynys. Mae'r ail ran yn fwy diddorol os rhywbeth. Yma mae enwau'r planhigion yn Gymraeg, Lladin a Saesneg. Sonnir ynddo am rinweddau'r planhigion i drin afiechydon o bob math gan gynnwys pethau fel, gwrwst, gwaedlif, dolur crachlyd ym mhennau plant, euod a'r dolur rhydd a hyd yn oed sut i ddifa chwain.**

Ond gwrandewch ar Hugh Davies yn son am Ddanhadlen Fawr (danadl poethion i ni). "Gellir trin coesau'r llysieuyn hwn i wneuthur math o liain, yr hwn sydd mwy parhaus, a gwasanaethgar, na'r hwn a wneir o lin. Yn Sir Amwythig y gwelir, yn agos i fythod, glyttiau o dir lle yr amaethir y rywogaeth hon i'r perwyl hwn. Trigolion Rwssia a liwiant wlân o wyrdd teg â sug y dail ac o felyn da â'r gwraidd."

Os ydych yn dioddef o lyngyr neu eich gwallt yn teneuo, mae gan Hugh Davies ateb i'ch cwynion. Pylor o ddail "Pren Bocsys" at y llyngyr a thrwyth o'r un dail at y moelni.

Sonia am 'Redyn y Gogofau', sy'n rhedynen brin iawn. Yn ei amser ef 'roedd hi'n tyfu mewn ogofeydd ar fynydd Caergybi ond yn anffodus yr oedd yn prinhau oherwydd i bysgotwyr ei defnyddio i ddal penfras. Yn ein bro ni, fe'i gwelir ar furiau o gwmpas Brynrefail ac ar fur tu allan i Eglwys Santes Helen, Penisarwaun. Mae hi'n hoff o le lle ceir calch ac yr oedd yr hen adeiladwyr yn defnyddio llawer o galch yn y morter. 'Rusty Back' yw'r enw Saesneg ar y rhedynen hon, ac wedi gweld ei lliw rhwd ar yr ochr isaf i'r ddeilen, mae'n enw gwell na 'Rhedyn y Gogofau.' Buasai 'Y Rhedynen Goch' yn enw addas.

# llyfrau

LLYFRAU
Y LLEWOD A'R FODRWY SAFFIR (19)

**Beth mae'r ferch o Rodesia a'r gŵr o Chicago eisiau yn Nhafarn Cadwgan? Sut mae Fflwffen ar ôl iddi ddigio wrth y Llewod? Yn helpu a datrys y dirgelion? Mae'r antur yma yn llawn o straeon; neidr yn llyncu ci, llun siraffod ar gerdyn Nadolig; hanesion am borthmyn a lleidr pen-ffordd. Dyna i ti dameidiau i brofi helyntion y Llewod ar drywydd y fodrwy saffir.**

Y LLEWOD A'R SOSER ARIAN (20)

**Y diweddaraf yn y gyfres. Hanes Cochyn yn anymwybodol ar y mynydd. Beth welodd Betsan Tomos yn edrych arni drwy'r ffenest ganol nos? Pam mae Wyn a Guto Hopcyn yn dweud anwiredd? Chlywaist ti ddim? Wyddost ti ddim? Dos i chwilio am gornel fach dawel a darllen am antur y Llewod gyda'r ysbiwr o'r gofod. Un rhybudd – cofia gloi'r drws a chau'r ffenest cyn cysgu heno!**

**Argraffwyd a chyhoeddwyd gan Wasg y Lolfa. Pris: 85c.**


DIOLCH

Diolch i'r rhai canlynol am eu rhoddion i gynnal breichiau'r Eco:
(£5) – Dienw, Deiniolen; (£1) – Mrs Dorothy May Jones, Caernarfon; (£3) – Mr a Mrs R. Wynne Roberts, Deiniolen; (£1) – Dienw Bethel; (£2) – Dienw Cwm-y-glo; (£2) Miss Marian Jones, Dinorwig a Mrs M. E. Roberts Yr Hen Ficerdy, Bangor; (£5) – Rhodd gan deulu Miss G. R. Jones, 1 Rallt Goch, Ceunant, Llanberis.
**£1: Mr Emlyn Jones, Borth y Gest, Porthmadog.**

GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



## "BUENOS NOTICIAS"
## CYFARCHION O BOLIFIA

**gan y Crwydryn Llon**

**Daeth dau lythyr i'r fei o Dde America yn ystod Ebrill, sy'n adrodd yn ddifyr am hynt a helynt Alun, y crwydryn o Lanbêr, ar ei ffordd tua'r Cyhydedd. Dyma'i eiriau ef ei hun:**

Siwrnai dda fu hi dros yr Andes o Santiago, Chili i Buenos Aires, mewn tryc agored dros y mynyddoedd. Ar ben y bwlch mae 'na dwnnel dwy filltir o hyd, gyda threnau, lorïau, ceir a phob math o siandri yn mynd trwyddo. Y mae'r to yn gollwng a thyllau mawr yn y lôn. Mae o'n is na llawer twnnel chwarel gartref. (Tybed nad Up-sal-ata Pass yr hen Jill oedd o?)

Buom yn aros am sbel tu allan i Mendoza (tref enwog am win) er mwyn mynd yn ôl i'r mynyddoedd i fusnesu o gwmpas Aconcagua — mynydd ucha'r cyfandir cyfan. Mynyddoedd anial lliwgar sydd i'w cael yno, o ddiffyg glaw ar yr ochr ddwyreiniol; lle dipyn yn wahanol i fynyddoedd coediog, gwyrdd Chili.

Wedi cael llond bol ar ffawdheglu ac ar Ariannin. Mae pethau'n rhy ddrud yma, a'r trefi yn rhy debyg i rai'r Gogledd. Anfonaf y gêr dringo adref efo'r hogia'; felly dim 'chwaneg o ddringo. 'Roedd cario cymaint o lwyth yn dipyn o boen; mae'n hynod o braf cael teithio'n ysgafn. Dyma ni'n dwrists go iawn rwan. Y ffordd rataf yw tren o Buenos Aires i Santa Cruz, Bolifia, — taith dridiau, sy'n 2400 Km. o hyd.

Wedi cyrraedd Bolifia rwan, i brifddinas La Paz. Tref fawr mewn dyffryn yn yr 'altiplano' — ucheldir gweddol wastad, 13,000 tr. uwchlaw'r môr. Buom yn aros gyda Barry Webb, dringwr a fu'n byw yn Llanbêr, a'i deulu yn Santa Cruz am ychydig ddyddiau; wedyn cawsom 18 awr mewn cefn lori (efo 40 o Indiaid) i gyrraedd Sucre, hen brifddinas a thref urddasol yng nghanol Bolifia. 'Does ryfedd ein bod yn cosi a chrafu; wedi codi chwain ar y tripiau, mae'n anodd cael gwared a nhw!

Mae Bolifia yn hollol wahanol i Ariannin. Indiaid yw'r rhan fwyaf o'r bobl, efo'u dillad a'u bwydydd eu hunain, a'u ffordd unigryw o fyw. Lle diddorol dros ben, — llawer o waith gweu cywrain a llachar yma — 'shocking pink' a 'lime green' yw'r lliwiau mwyaf poblogaidd. Mae'r merched yn gwisgo'n lliwgar iawn — pob ardal efo'i het ei hunan. Un ardal yn ymyl Potosi efo 'het pot llaeth' tebyg i'r hen het Gymreig. Ond 'bowler hat' yw'r ffasiwn.

Mae'r dynion a gefnodd ar yr hen ffordd o fyw yn gwisgo fel 'gangsters' tlawd — hen siwtiau a hetiau fel Chicago yn y dauddegau. Pawb yn cario popeth ar eu cefnau mewn blanced (mantas) lachar. Mae pob pentref efo'i grydd, teiliwr a saer ei hunan a phawb yn pobi'i fara ei hun. Merched sy'n gwerthu bwyd ar y stryd ym mhob pentref; digonedd o fwyd ond gormod o 'starch.' Cinio ganol dydd yw 'Almuertzo' — dau bryd, cawl ac wedyn reis, tatws ac ychydig gig — iawn am 20c. Cinio nos yw 'cena', ond 'run fath ag 'almuertzo'.

Ar ôl busnesu o gwmpas Sucre aethom i Potosi, tref a adeiladodd y Sbaenwyr ar ôl darganfod arian yno. Mae'r safle ar 15,000 tr. ac mae gelltydd ym mhobman, sy'n gwneud i chi deimlo'n wan gan effaith yr uchder. 'Does fawr o arian ar ôl yno, ond digon o dun a metelau eraill. Trowyd hen fathdy Sbaenaidd yno yn amgueddfa wych. Oddi yno am dro i ryw bentref y meddyliem ei fod yn bur agos, yn ôl y map. Os gellwch ddychmygu mynd mewn cefn lori (efo tua 30 o ferched, plant a 'gangsters' eraill) i fyny'r 'miner's track' at Lyn Llydaw, ond am 50 milltir, cofiwch — wel, felly'n union yr oedd hi! Mewn rhai llefydd, cyrhaeddai'r lon rhwng 15,000 tr. a 16,000 tr.

Wedi oriau maith, a ninnau wedi syrffedu, dyma gyrraedd rhyw dwll o le — ie, tref dyllu arall (tun eto!). 'Roedd yno gêm bêl-droed ar ei hanner, a'r band yn chwarae a deinameit yn ffrwydro pan sgorid gôl!

Buom yn 'stuck' yno am ddau ddiwrnod, a lwcus fuom ni i gael lifft allan mewn jîp am fod dipyn o storm wedi digwydd ac eira'n drwchus ar y trac.

Wedi diwrnod arall o deithio trwy ddyffrynnoedd a thros fynyddoedd cawsom wybod bod gorlif afon wedi chwalu'r lôn ymhellach draw, ond byddai popeth yn iawn ymhen tri mis!

Mae'r Indiaid ar yr altiplano yn byw mewn cytiau cerrig yn y llefydd mwyaf anghysbell. Gwelsom luoedd o lamas ym mhobman. Maent hwy yn dibynnu yn hollol ar y lama; cig i'w fwyta, gwlân i'w nyddu, gweu a gwisgo; eu tail i gynnau tân, a'u cefnau cryfion i gario tatws.

Tyfant datws a chnydau gwreiddiau eraill, barlys neu India corn, at wneud cwrw neu 'chicha.' A ellwch ddychmygu clirio cerrig o dan Ddinas Mot ym Mwlch Llanberis ar uchder o 12,000 tr? Mae rhai caeau (neu erddi) mewn llefydd peryg' — mi fuasai'n wir dweud y gallai ffermwr faglu dros res datws a disgyn dair mil o droedfeddi i'w dranc.

Am fynd draw at Lyn Titicaca nesaf, ac i Periw — mae pethau'n rhatach byth yno. Gobeithio bod y gaeaf ar ben i chi bellach; mae wedi bod yn haf arnom ni er y 'Dolig. Mae'r gaeaf yn dilyn wrth ein cwt fel y symudwn tua'r gogledd. Dyna'r cwbl am y tro.

Alun.

# CANU'R FRO

*DAETH ymateb gwyllt a brwd i'r apêl yn y rhifyn olaf o'r* **Eco** *am wybodaeth a lluniau yn ymwneud â chanu'r fro. Yn wir daeth cymaint o ymateb fel y bydd yn rhaid i ni gynnwys y deunydd o fis i fis. Peidiwch poeni chwi gyfranwyr, fe wêl eich deunydd olau dydd yn o fuan!*

*Felly dyma ddechrau:*



*Llun a yrrwyd i'r* **Eco** *gan Mr Orwig C. Roberts, Elidir View, Llanrug yw'r uchod. Llun o gôr Meibion y Crosville ydyw wedi ymgynnull y tu allan i ddrysau'r garej cyn eu taith i Ddulyn, Iwerddon i recordio. Yr arweinydd yw Mr Richard Jones, Glasfryn, Llanberis. Ar y dde iddo mae ei ddiweddar wraig ac unawdydd, Mrs Katie Jones. Yr ail o'r dde yn eistedd yw'r diweddar unawdydd enwog o Frynrefail – Evan Jones, ac yna wrth ei ymyl ef yr enwog W.J. Jones, Talmignedd. Saif Orwig Roberts y trydydd o'r dde yn y rhes uchaf ond un.*



*Llun o Sefydliad y Merched Penisarwaun ar ôl ennill y darian yn Eisteddfod gyntaf y dosbarth a gynhaliwyd yn Neiniolen.*

## LLANBERIS I BEN-Y-GWRYD



*Llun hynod o ddiddorol a dynnwyd o bostman Llanberis ar ddechrau'r ganrif wedi cerdded yr holl ffordd o Lanberis i Ben-y-gwryd. 'Roedd yn cwblhau'r siwrnai yma yn aml iawn. Y llun trwy garedigrwydd Mr M. Williams, Penterfyn, Llanrug.*



*Y llun trwy garedigrwydd Mrs Percy Williams, 3 Llys y Gwynt, Penisarwaun.*


*DARLUN O GOR PLANT CWM-Y-GLO 1920–22*

**Rhes uchaf:** *Miriam Owen (Newborough House); Jessie May (Llwyn Coed); Eluned Parry (Craig Don); Memie Hughes (Tan y Graig); Jennie Roberts (Bod Gwynedd); Katie Roberts (Bryn Difyr); Violet Griffiths (Bryn Hyfryd); Elsie Price (Glan'rafon); Eirwen Griffiths (Bryn Hyfryd).*
**Ail res:** *Blodwen Thomas (merch y Barbar); Ceinwen Hughes (merch Wm. Hughes (Garn); Mair Jones (Becws Llanrug); Lizzie Hughes (Tan y Graig); Enid (Huw Parry Barbar); Jennie Abigail*
**Trydydd res:** **?; *?; Lizzie -- (Gromlech); – Angel (de Affrica gynt); Gwyneth Price; Cecil (Huw Parry Barbar); Jack Davies (brawd Lizzie Davies); Tom Hughes (Celynen House); Jac Jones (Glanbogelyn); Dei Jones (Glan Bogelyn)*
**Pedwerydd res:** *David Simon (Glanbogelyn); Annie Prescilla (Gromlech); Betty Hughes (Celynen House); ?; Nellie Parry; John Thomas (Arweinydd a Barbar y Pentre); Lizzie Mary (Seiont House); Maggie Maxwell (Bwlch); Glenys Griffiths (Gors Bach); Betty Roberts a'i chwaer bach Menna*
**Pumed res:** *Katie May Williams; Nellie Vaughan Hughes (Bryn); – Hughes (Morda House); Madge Pritchard (Glan Gors); Katie Meira Jones (Alexandra House); – Angel (de Affrica gynt); Mary Parry Williams (Bodiestyn); Jennie Owen (Ddol); Rose Parry (Pool Street)*

*Credir mai o Lanrug y doe y ddwy a arwyddid gyda *. John Thomas y Barbwr oedd arweinydd y côr. A oes rhywun a fedr roi dipyn o'i hanes? Hefyd llenwi'r bylchau uchod.*

*Y llun oddi wrth Jessie M. Mabbett, Glen Harmony, OFS, De Affrica, a'r enwau trwy garedigrwydd a chof eithriadol Dei M. Jones, Caernarfon, (Glanbogelyn gynt). Diolch Mr Noel Williams am roddi'r wybodaeth wrth ei gilydd.*

## PA BRYD Y DAW'R GWANWYN?



*Llun diweddar iawn o "Hanner Ffordd" i fyny'r Wyddfa wedi ei dynnu gan Mr. Meirion Thomas, o Bentre Berw, Môn, ond gynt o Lanberis.*

# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH

Croeso i'r Llannerch unwaith eto, a chroeso i wanwyn arall. Cefais amser prysur a diddorol yn crwydro o Steddfod i Steddfod. Cynhaliwyd hen Eisteddfod flynyddol Uwchmynydd yng nghanolfan ysgol newydd Aberdaron am y tro cyntaf eleni, a bu'r fenter yn hynod o lwyddiannus. Ardal newydd i mi fynd i eisteddfota iddi oedd Penrhyn-coch, ger Aberystwyth, a chefais bron i ddeuddydd hapus iawn yno, yn cyd-feirniadu â'r tenor enwog John Stoddart o Lundain. Cefais dros ddau gant o linellau coll i gloi'r pennill –

**"Mi anghofiais fy mhyjamas,"**
**Meddai Siôn yn ôl yr hanas;**
**"Nefoedd fawr," medd Siân mewn**
**dychryn . . .**

Dyma rai ohonynt:

**Gwelais fwy o gig ar gortyn.**
**Cadw'r gath 'na mas am dipyn.**
**'Rwyt ti'n llipa fel pysgodyn.**
**Beth yw hwn'na sy'n dy ganlyn.**
**Tynn dy grys yn is yr asyn.**

Testun yr englyn a osodwyd yno oedd 'Hot Dog.' Canodd rhai i'r 'ci', yn llythrennol felly. Gresyn am wendid yr esgyll yn hwn:

**Nid burum ac nid bara - yw y maeth**
**Ond ci mawr Cwmbwa,**
**Rhoddodd wythnos o ddos dda**
**A balast i ast Nesta.**

Dyma'r englyn buddugol:

**Mae'r hen Lad eto'n dadi, - a'i frid**
**Sydd drwy'r fro eleni;**
**I'w feistres mae'n gynnes gi,**
**Beunydd mewn rhyw drybini.**

Cofiaf gael englyn da ar y testun 'Hot Dog' yn Eisteddfod Llandegfan, sir Fôn tua dwy flynedd yn ôl – yr 'hot dog' bwytadwy y tro hwn.

**Cawn sgram allan medd Dani, - tybiodd**
**Bet**
**Byddai bwrdd a gweini,**
**Yn lle hyn yn ei llaw hi**
**Hances yn dal bwyd Ianci.**

Mae cryn dipyn o gerddi yn y fasged, a diolch i chwi'r ffyddloniaid am eu hanfon. Diolch i chwi Jean Parc Jones, Blaen Cae Uchaf, Deiniolen am ichwi anfon cerdd o waith Mr William Price Jones o Aberaeron i mi. Mr Jones, wrth gwrs, wedi ei fagu yn Rhiwen, Deiniolen.

**Yn llencyn go ifanc yn fore yr aeth**
**A'i dad wrth ei ochr, talsythu a wnaeth**
**Sŵn pâr hoelion mawr ar gerrig yn**
**dwyn**
**A si melfaréd rhwng ei goesau yn swyn.**

**Ar drên o Bontrhythallt i dwrf Gilfach**
**Ddu,**
**A fyny y gelltydd i Bonc Braich yn hy,**
**Gweld ponciau mor uchel â grisiau i**
**gawr,**
**A dorrwyd drwy'r llafur a gostiodd**
**mor fawr.**

**Bu'n dysgu trin darnau yn 'byts hogia'**
**bach,'**
**Yn brentis rybelwr fe dyfodd yn iach,**
**Yn llifio pileri yn glytiau i'w trin**
**Am oriau bu'n hollti ar ei flocyn tin.**

**Yn naddu'n ei wal â'r gyllell fain, fach,**
**Eisteddai ar drofal yn ei farclod sach.**
**Y Prinsis a'r Dytshis yn rhes ar y llawr**
**O fewn y cwt peilio, bydd hwyl Cyfri**
**Mawr!**

**Ar wyneb y fargen yn hongian ar raff**
**Yn chwilio am holltau â llygad mor**
**graff!**
**I'r caban ymochel mae'n cilio'n ddi-**
**fraw**
**A'r ffrwydriad yn atsain trwy'r**
**ponciau uwchlaw.**

**Wrth fwyta'n y caban ar awr ganol**
**dydd,**
**Côr, capel ac undeb – dadleuon brwd**
**sydd,**
**Ymysg bechgyn ifainc mae hwyl tynnu**
**coes;**
**Haelioni 'mhob achos, a braich dan**
**bob croes.**

**Y chwarel a gaewyd, bu symud o'r fro,**
**A minnau mewn hiraeth, bûm yno ar**
**dro;**
**Ni chlywais sŵn hoelion ar hyd**
**Llwybyr Main,**
**Na stŵr yn y siediau ond crawcian y**
**brain.**

*Wil Price Jones, Aberaeron*
*(gynt o Rhiwen, Deiniolen)*

A dyma ddwy gerdd gan Mr Cadfan Parri Owen, dirprwy-brifathro Ysgol y Gaerwen, Ynys Môn. Diolch i chwithau, Mr Owen, am droi i mewn hefo pennill i'r Pasg a cherddi 'Gymru'.

**Y blodau a'r Eglwys,**
**Gwyn eu byd!**
**Y fam a'i phlentyn**
**Ynghwsg yn ei chrud.**
**Duw roddodd fod**
**I'r prydferthwch i gyd.**
**Boed i ni gofio**
**Ei aberth drud.**

**CYMRU**
**Caraf Gymru fach fynyddig,**
**Gwlad Goronwy gywir gynt,**
**Caraf hi a hi yn unig**
**Wrth im grwydro ar fy hynt.**

**Ynddi bu ein teidiau dewrion**
**Yn llafurio o dan drais,**
**Cadw'r lamp am flwyddi meithion**
**Rhag estronol lid y Sais.**

**Heddiw cwyd ei phen yn uchel**
**Ac mae'r heniaith yn y tir;**
**Cadwn ninnau hi'n ddiogel**
**Yn ein gwlad am oesau hir.**

**Carwn Gymru fach y delyn,**
**Molwn hi â llawen gân;**
**Crefwn ar y wlad i'n dilyn**
**Yna cawn ni Walia lân.**

Pob hwyl ar drin y gerddi ac ar wau cerddi i'r Llannerch.

Selwyn.



*Gyrrwyd y llun yma i'r Eco gan Mr W.D. Roberts, Bangor ond brodor o'r Nant. Er ei ymddeoliad – mae wedi cymryd diddordeb mawr yn hanes y fro ac wedi rhoi ei atgofion ar gof a chadw. Dyma un atgof o'i eiddo sef llun Ysgol Sul Nant tua 83 mlynedd yn ôl. Faint ohonoch chi drigolion hŷn y Nant sy'n cofio'r cyfeillion yn y llun? Diolch am y llun Mr Roberts a gobeithio y cawn fwy o hanes y Nant gennych.*

# BRYNREFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED – Daeth nifer o aelodau ynghyd ar Fai 17 pan gafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mrs O.A. Thomas o Gaernarfon – cynrychiolydd y sir. Pleidleisiwyd ar benderfyniadau i'w datgan gerbron y genhadledd genedlaethol sydd i'w chynnal yn hwyrach yn y flwyddyn. Darparwyd y te gan Mrs Jackie Jones a Mrs Shirley Roberts. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Sheila Williams ac fe'i henillwyd gan Mrs O.W. Thomas. Diolchwyd gan Mrs Gwyneth Jones a Mrs Knox.

CLWB PEDWARUGAIN – Mwynhawyd yn fawr y daith ddirgel ar Fai 5 pan ddaethom ynghyd am swper a disco yng Ngwesty Bryn Cregin, Deganwy. Diolchwn yn fawr i Mrs Pat Jones, Cae Coch am drefnu'r noson. Yr eitem nesaf yn rhaglen y flwyddyn yw'r helfa drysor sydd i'w chynnal nos Sadwrn, Mehefin 23 – cysylltwch â'ch casglwyr os ydych am ymuno.

Enillwyr mis Ebrill:
Ebrill 6: 1. John Williams, Bryn Hyfryd; 2. Shirley Roberts, 1 Minffordd ; 3. Owen Walters, 3 Minffordd. Ebrill 13: 1. Annie Walters, 3 Minffordd; 2. Huw Walton, Rhydau Duon; 3. Gwyn Mowl, Bryn Llwyd. Ebrill 20: 1. Audrey Roberts, Gerallt; 2. Jennie Roberts, Penllyn; 3. Mike Collins, Deiniolen. Ebrill 27: 1. Phyllis Jones, Gors; 2. Lillian Roberts, 8 Tremeilian; 3. Colin Wager, Llythyrdy.

PEN-BLWYDD – Llongyfarchiadau i Mrs Hannah J. Jones, 7 Tremeilian ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 mlwydd oed ar Fai 9. Dymuniadau da oddi wrth yr holl deulu a chyfeillion.

YN YR YSBYTY – Mrs M. Closs-Parry, Bryniol a hefyd Mrs Nellie Williams, Glanffrwd – y ddwy yn derbyn triniaeth yn ysbyty Môn ac Arfon. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt ac edrychwn ymlaen am eu gweld gartref.

CLWB MAMAU – Yng nghyfarfod y mis ar Fai 10, cafwyd noson ddifyr ac addysgiadol yng ngofal Mr G.T. Jones, a Mrs Jones a nifer o aelodau o gangen Brigad Ambiwlans Sant Ioan Deiniolen. Rhoddwyd y te gan Mrs Sheila Williams, Mrs Ann Parry a Mrs Jackie Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Helen Jones ac fe'i henillwyd gan un o hogia'r frigad.

CLWB 'REFAIL – Gwnaed elw da mewn noson goffi ac arwerthiant yn Nhy Glas ar Fai 8. Dymuna'r clwb ddatgan eu diolch am y gefnogaeth a gawsant.

22 o Fai – cafwyd cyfarfod pan etholwyd swyddogion am y tymor, sef– Llywydd: Mr Griffydd Pritchard Trysoryddion: Mrs Jennie Hughes a Miss Blodwen Owen; Ysgrifenyddes: Mrs B. Knox.

Derbyniwyd dau anrheg o ffrwythau a llysiau gan Mrs Wager o'r Llythyrdy ac fe'u henillwyd gan Mrs B. Knox a Mrs Jennie Roberts. Yr eitem nesaf yn rhaglen y tymor fydd trip i Gricieth ar Fehefin 19.

CYMANFA – Gwobrwywyd nifer o blant yr eglwys yn yr arholiad llafar yng nghymanfa ysgolion dosbarth Deiniolen a gynhaliwyd yn Eglwys Disgwylfa, prynhawn Sul, Mai 6. Gwobrwywyd Llinos Roberts, Meinir Jones, Alwen Jones, Jaqueline Walters Caron Jones, Glenda Walters, Paula Walters, Marian Jones a hefyd y cor adrodd dan 12 oed.

LLWYDDIANT – i Iestyn Jones, 3 Tremeilian mewn cystadleuaeth yn un o'r papurau newydd cenedlaethol – enillodd grys T am ateb nifer o gwestiynau ar chwaraeon.

LLONGYFARCHION – i Mr Tegwyn Jones, mab Mr a Mrs Thomas Jones, 12 Tremeilian ar ei ddyrchafiad i'r swydd o oruchwyliwr gyda'r BBC yng Nghaerdydd.

# NANT PERIS

LLONGYFARCHIADAU – i blant Ysgol Sul Rehoboth ar eu llwyddiant yn y Gymanfa yng Nghapel Coch a hefyd i David John a Sharon ar dderbyn gwobr yr Arholiad Sirol ym Methel, Pen-y-groes.

CROESO ADREF – o'r ysbyty i D. Thomas, Vaynol Arms a Gwynedd Roberts, Ystrad. Dymunwn lwyr wellhad iddynt. Hefyd ein cofion a'n dymuniadau gorau i T. J. Roberts, Llys Awel (gohebydd y Nant) sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Brysied wella a dychwelyd i'n plith.

LLONGYFARCHIADAU – i Meirion Pritchard, Tŷ Isa am ennill am arddangos myheryn. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol iddo ennill y darian hon.

O AWSTRALIA – Gwastadnant fydd cartref Mr a Mrs Hugh Alun Jones am y chwe mis nesaf. Gyda'r ddau o Awstralia, daeth eu mab, Douglas Alun. Gadawodd y tri Dan-y-merddyn, Ceunant, Llanrug un mlynedd ar hugain yn ôl, pan oedd Douglas yn 11 oed. Er bod y tad a'r fam wedi bod drosodd sawl gwaith, dyma'r tro cyntaf i'r mab ddod yn ôl. Mae Kathy, gwraig Douglas, sy'n ferch o Awstralia, wedi gwirioni gyda golygfeydd Eryri. Yma y gwelodd eira ac y clywodd y gog am y tro cyntaf yn ei bywyd; "Mae fel gwlad y Tylwyth Teg," meddai.

YR ORSEDD – Mair Dwynant fydd un o'r rhai a dderbynnir i'r Orsedd yn Eisteddfod Caernarfon eleni. Dewisodd yr enw 'Dwynant' o deyrnged i ddwy ardal agos at ei chalon: Nant Peris a Nant Nantlle. Fe'i bedyddiwyd yn Mair; fe ddaeth wedyn yn Mair Garreg Wen, ac yn ddiweddarach yn Mair Closs Roberts. Llongyfarchiadau iddi oddi wrth drigolion yr hen ardal.


## TAITH I AMERICA YR HAF HWN

HOFFECH chi ymweld â'r Amerig yn syth ar ôl y Steddfod Genedlaethol? Cyfle i fynd i Los Angeles (i weld sêr y ffilmiau); Gwlad ryfeddol Disney; Pheonix, Arizona; Grand Canyon, – Las Vegas (cyfle yma i wneud eich ffortiwn) yna i Yosemite, a thair noson ar "Strydoedd San Frincisco". Yna yn ôl i Los Angeles drwy Moterey. Taith i'w chofio!

Hedfan o Heathrow Awst 14. Dychwelyd ar Awst 28.

O ia! faint ydy'r gost. Wel – tua £690 (heb gynnwys bwyd). Am fwy o fanylion cysylltwch a:

Selwyn Griffith, Crud yr Awen, Bethel
Rhif ffôn: y Felinheli 670328.

Brysiwch, – 'does fawr o le ar ôl!


## ATGYFODI EISTEDDFOD LLANRUG

Ar y 9fed o Fai cynhaliwyd cyfarfod i ailsefydlu Eisteddfod Gadeiriol yn Llanrug. Bwriedir ei chynnal ddydd Sadwrn, Hydref 27, 1979.

Etholwyd pwyllgorau cyllid, cerdd, llên ac adrodd a chelf a chrefft. Mae'r rhain eisoes wedi cyfarfod i drefnu'r rhaglen.

Gwahoddir unrhyw un sydd yn barod i gyfrannu gwobr ariannol neu dlws ar gyfer cystadleuaeth arbennig i gysylltu rhag blaen ag unrhyw un o'r swyddogion canlynol: Mr Derfel Griffiths, Pennaeth Ysgol Gynradd, Llanrug; Mrs Margaret Jones, Dwyros; Mrs Mary Roberts, Bedw Gwynion; Mrs Ann Llwyn Elis Jones, 23 Glanffynnon.

Bydd Cyfarfod Cyffredinol yn dilyn y Co Bach ar Fehefin 6 yn ysgol gynradd Llanrug. Gweler tudalen am ragor o fanylion. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb.


E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS
DEINIOLEN
FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS!

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,

HARLEY'S

(Siop Dilladau Plant)

Stryd Fawr
Llanberis

Dilladau Plant o bob math
o fabanod i dair ar ddeg oed

Hefyd ar gyfer genethod
a bechgyn
Ysgol Brynrefail
Ffôn: Llanberis 393

# Llanrug



*Majorettes Llanrug gyda'u hyfforddwyr ar ôl coroni eu brenhines.*

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yn y Sefydliad Coffa nos Fawrth, Mai 8 gyda Mrs N. Lovatt yn llywyddu. Etholwyd y rhai canlynol: Llywydd, Mrs N. Lovatt; Is-lywydd, Miss Phyllis Ellis; Ysgrifennydd, Mrs Beth Ann Williams; Ysg. Cynorthwyol, Mrs Eirlys Pierce; Trysorydd, Mrs Ann Lloyd Griffith; Trys. Cynorthwyol, Mrs Gwenda Roberts; Gohebydd y wasg, Mrs Gwladys M. Jones; Dosbarthydd y Wawr, Mrs Sheila Williams, ynghyd â'r rhai canlynol i ffurfio pwyllgor: Mrs Roberta Gruffydd, Mrs Helen Parry, Miss Megan Humphreys, Mrs Olwen Huws, Mrs Mair Huws, Mrs Carys Ll. Evans. Rhoddwyd adroddiad ariannol gan Mrs Mary Roberts. Bydd y wibdaith ar Fehefin 12 i Faes Artro, Llanbedr, Meirionnydd yn cychwyn am chwarter i chwech. Enwau i Mrs Beth Ann Williams erbyn diwedd y mis gyda thal bws £1, mynediad 50c a £2 am fwyd. Dylid rhoi archebion am ddyddiaduron i'r ysgrifennydd cyn diwedd Mai. Miss Megan Humphreys a gynrychiolai'r gangen yn y Cyngor Cenedlaethol yn Aberystwyth a chafwyd adroddiad o'r cyfarfod ganddi. Mrs Jennie Eirian Davies, y llywydd cenedlaethol, a lywyddai. Cyfeiriodd at y don ryfedd sydd wedi sgubo dros Gymru y dyddiau hyn – colli rhyw wreiddiau politicaidd, a bod perygl yn awr i ni gael ein siglo oddi wrth ein gwraidd. Y mae'r dyfodol yn dyngedfennol i ni fel cenedl, a dyma gyfle arbennig i ni fel mudiad, a chyfrifoldeb arnom i arbed y peth a gollwyd. Y wraig wadd oedd Miss Nora Isaac, a ddywedodd fod dydd o brysur bwyso wedi dod ar ein hiaith a'n Cymreictod. Yr ydym ni fel mudiad i fod yn gwybod i bwy yr ydym yn perthyn – anghofio ein gwreiddiau yw bradychu, Dyfalbarhad – dal ati – dyna'r nod, meddai.

Gwnaed y te gan Olwen Huws, Mair Huws, Carys Lloyd Evans ac Ann Llwyd a diolchwyd iddynt gan Mary Roberts.

NOFWYR – Llongyfarchiadau i Dafydd ac Olwen, Gwên-y-Wawr, ar eu llwyddiant mewn profion a gynhaliwyd ym Mhwll Nofio Bangor. Enillodd Dafydd fedal aur ac Olwen un arian.



Y SEINDORF – Cynhaliwyd cystadleuaeth ymysg aelodau'r Seindorf yn eu hystafell ddydd Sadwrn, Ebrill 21. Y beirniad oedd Mr Ken Hughes, Bae Colwyn. Mr Frank Boylin oedd yr arweinydd. Cafwyd prynhawn difyr iawn. Rhoddwyd cwpanau yn wobrwyon gan Mrs E. Ll. Jones, Lyndale er cof am y diweddar Mr R.J. Jones, Mr Frank Boylin, Mr John Nathaniel Owen a Mr Erfyl Owen. Rhoddwyd nifer o fedalau gan aelodau'r pwyllgor. Enillwyr yn y dosbarth dan 18 oed oedd: (1) Keith Jones, (2) Gwyneth Jones (3) Iwan Williams. Unawd Agored: (1) Mr Glyn Hughes, (2) Mr James Jones, (3) Mr. John Tame. Mr a Mrs R. Ll. Jones ddaeth yn gyfartal gyntaf yn y dosbarth 'Air Varie'. Y pedwarawd buddugol oedd Mr Frank Boylin, Mr John Tame, Mrs Joyce Jones a Mr Raymond Ll. Jones. Bu'r Seindorf yn cystadlu yn Buxton, ddydd Sul, Ebrill 29. Maent i'w llongyfarch ar ddod yn ail allan o dri ar ddeg.

TRIP UNDEB Y MAMAU – Aeth aelodau Undeb y Mamau a'u cyfeillion i Landudno yn ddiweddar i weld llwyfannu 'Viva Mexico' gan gwmni operatig Llandudno a bu i bawb fwynhau ei hun yn fawr iawn.

GWAELEDD – Drwg gennym mai yn yr ysbyty ym Mangor y mae Mrs Morris, Erw Hywel ac anfonwn ein cofion ati. Deallwn i Mrs Mabel Owen gynt o 5 Glanmoelyn gyfarfod â damwain drwy syrthio a thorri ei chlun a hyderwn ei bod yn gwella. Drwg yw cofnodi fod Mrs M. E. Shilton wedi mynd i fyw gyda'i merch ger Llundain. Y mae dallineb wedi goddiweddyd Mrs Shilton sydd yn 93 oed. Hyd yn ddiweddar iawn yr oedd yn peintio lluniau gwerth eu gweld ac yn trin yr ardd. Gobeithiwn ei gweld yn ôl yn Nhan-y-coed o bryd i'w gilydd gan fod y cartref yn dal i gael ei gadw.

CROESO – Estynnwn ein croeso i Mrs Edwards, gweddw'r Parch Deiniol Wynne Edwards, Rheithor Llanllechid, i fyw yng Nghilan, Glan Ffynnon. Hyderwn y bydd yn cartrefu yn ein mysg ac y bydd yn ennill ei phlwyf mewn dim amser. Croeso yn ol hefyd i Mr a Mrs Stanley Jones, Y Storfa gynt ac i'r plant a hyderwn y byddant yn hapus yn eu cartref newydd yn Ystad Bryn Moelyn.

LLONGYFARCHION – i Mr a Mrs Melfyn Evans, Ystad Tal-y-bont ar enedigaeth eu mab cyntafanedig.

MARW – Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Diana Whiteside Griffith (Porthmadog) a fu farw yng nghartref ei chwaer, Mrs C. E. Roberts, Hedsor Villa. Cydymdeimlwn â'i mab, Mr Ceris Gruffydd, ei chwiorydd, Mrs C. E. Roberts, Mrs Enid Wh. Thomas, Miss Eirlys Whiteside Jones, Mrs Amy Smith a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLIR – â'r Parch. W. O. Roberts, Annedd Wen ar farwolaeth ei chwaer yn y Bermo. Cydymdeimlwn hefyd â Mr Evan Hughes, Tŷ Newydd, Cae Howell, Pontrhythallt ar farwolaeth ei chwaer ym Mynytho.

Y GANOLFAN GYMDEITHASOL – Drwg gennym am yr oedi ynglŷn â galw pwyllgor ond disgwyliwn atebiad oddi wrth yr Eglwys yng Nghymru ynghylch Ysgol Glanmoelyn.

LLONGYFARCHIADAU – i Gwen Lloyd Williams ar ennill gwobr yn yr Arholiad Sirol, Henaduriaeth Arfon. Mae Gwen yn aelod o Ysgol Sul Pontrhythallt. Gwobrwywyd hi yn y Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ym Mhen-y-groes.

FESTRI'R PASG – Cynhaliwyd Festri'r Pasg yn yr Ysgol Gynradd o dan lywyddiaeth y Rheithor ac ef hefyd a arweiniai'r gweddiau i agor y cyfarfod. Diolchodd y Rheithor i bawb am eu cefnogaeth a rhoes amlinelliad byr o'r gwaith sydd yn wynebu'r eglwys yn ystod y flwyddyn. Etholodd y Rheithor Miss A. C. Jones yn Warden iddo ef ac etholwyd Mrs Stanley Jones yn Warden y Bobl. Dewisodd y Rheithor Mr E. G. Owen, Cwm-y-glo yn Is-warden ac fe etholodd y bobl Mr R.A. Roberts, Cwm-y-glo yn Is-warden. Ailetholwyd y Cyngor Plwyfol Eglwysig ac ychwanegwyd y Dr. Eirwyn Lloyd Evans a Mr R. Griffiths at y rhestr. Darllenwyd a derbyniwyd y Fantolen fel un gywir. Diweddwyd trwy weddi.

DYWEDDÏAD – Ein dymuniadau gorau i Gerwyn Llewelyn Jones, Bodlondeb ar achlysur ei ddyweddïad â Janet Lloyd Roberts o Gaernarfon.

CARREG GOFFA 1939-45 – Dymuna Mr W. Pritchard, Garnedd, Tan-y-coed ddiolch ar ran y Pwyllgor i'r bobl a ganlyn am eu rhoddion caredig tuag at gost y Garreg Goffa:

Mr Glyn Owen, Llys Eryri, Llanrug (£2); Di-enw (£1); Mrs Ellis a John, 10 Rhos Rug (£2); Mr a Mrs W. Pritchard, Garnedd (£5); Mr a Mrs R. J. Jones, Egryn Villa (£1); Mr a Mrs H. O. Jones, 5 Bro Rhythallt (£1); Mr a Mrs H. Roberts, 2 Plastirion Terrace (£2); Anhysbys, Llanrug (£3.30); Mr J. Lewis, Tre Ifan (£5); Mr a Mrs R. Williams, Llain Gwta (£5); Mr K. Jones, 19 Maes Padarn, Llanberis (£1); Mrs M. Williams, Dwyfor, Tan-y-coed (£1); Mr a Mrs N. Humphreys, 16 Bro Rhythallt (£3); Dienw (£2); Dienw, Pontrhythallt (£10); Mrs L. Jones, 5 Rhos Rug (£1); Mrs K. Pritchard, Tan-y-coed Terrace (£1); Dienw (£1); Mr a Mrs R. Griffith Llys Meredydd, Tan-y-coed (£1); Mrs E. Jones, Bod Ivor (£1); Mrs L. J. Ellis, 3 Bryngwyn Terrace (£1); Mr a Mrs R. E. Jones, Ogwen (£1); Mrs K. O. Owen, Wenllys, Mountain View (£1); Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar (£1); Mrs E. A. Jones, 9 Bryngwyn Terrace (£1).

LLWYDDIANT CERDDOROL – Bu Olwen M. Jones, Gwên-y-Wawr yn llwyddiannus mewn arholiad canu'r piano Gradd 1, a Gwyn Meirion Roberts, Gregynog mewn arholiadau trwmped a phiano Gradd IV. Llongyfarchion iddynt.



*Dyma Gwyn. Mae llun Olwen ar y golofn gyntaf.*

ENILLWYR CLWB CANT – Dyma'r enillwyr diweddaraf: £10: Phyllis Ellis, Penisarwaun; £2.50: Gareth Roberts, Gregynog, Llanrug, £2.50: Rhif 13.

YN YR YSBYTY – Ein dymuniadau am adferiad buan i Mrs L. Pritchard, Gwynfa sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Mangor.


**GWILYM JONES**


**Monumental Works**

**LLANRUG**

**FFÔN CAERNARFON 2898**

**Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol**

# EISTEDDFOD CAERNARFON A'R CYLCH



Mae pob colofn yn golygu nod y pentref.

## CADI'R CWMGLAS

**(Catrin Tomos, merch Tomos Williams, Cwmglas Mawr, sef chwaer Abram Williams, y Bardd Du).**

**Dyma ddyfyniad o ryw fras ymchwil a wnes rai blynyddoedd yn ôl trwy chwilota hen hanes am Nant Peris, ac mewn llyfrgell ym Mangor, fe gefais hyd i lyfr. Tybiaf mai gwaith William Williams, Bod y Gof, Ceunant Coch, Llanberis oedd y llyfr. Adwaenwn Williams yn dda canys 'roeddwn yn hoffi mynd i'w weld yn gweithio yn yr efail ger Capel Coch.**

Nid oedd Catrin mor lluniaidd ei chorff nac ychwaith mor dal â Marged uch Ifan. Yr oedd y ddwy yn byw tua'r un adeg, sef tua chanol 1700 – 1840. Pwten fechan lysti oedd Catrin, a chanddi ysgwyddau llydain. Tyfai farf ar ei hwyneb. Bugeiles ydoedd, a byddai ei llais yn treiddio ac yn diasbedain yn y creigiau pan fyddai yn hel y defaid yng Nghwm Cwmglas. Meddai ar nerth corfforol anghyffredin, ac ni fyddai gyndyn o wneud gorchestion fel ymaflyd codwm, ac ambell gwffast. Byddai bechgyn direidus yn gofalu ei hosgoi. Onid oes angen rhywun tebyg iddi y dyddiau hyn?

Fe geir ei hanes un tro, a hithau i fyny ymysg y creigiau ysgythrog yn corlannu defaid. Digwyddodd edrych i gyfeiriad y llwybr a arweiniai i'r Cwmglas o'r ffordd fawr ger Sarn Cefn Braich, a gwelodd ddyn tlodaidd yr olwg yn cerdded y llwybr at y tŷ. Mae'n debyg ei fod wedi clywed llais Catrin gyda'r defaid. Beth bynnag, yn llechwraidd iawn, aeth y dyn i mewn i'r tŷ, ond buasai'n well i'w groen pe buasai heb fynd i'r tŷ, oherwydd gwelodd 'Cadi' ef, a daeth i lawr o'r mynydd a chuddiodd y tu ôl i'r graig gerllaw'r tŷ. Daeth y dyn allan, – dyn cryf, heini ei gerddediad, – a brasgamodd yn ôl i'r ffordd, dros yr afon, gan ei gysuro'i hun na welwyd mohono, a bod Cadi'n ddigon pell. Yn y cyfamser, aeth Cadi i'r tŷ a gwelodd ar unwaith fod lladrad wedi digwydd. Ymhlith y pethau a ddygwyd o'r tŷ yr oedd anrheg gwerthfawr a gawsai gan un a'i carai yn fawr, sef hances sidan o'r India. Hoffai Cadi hon yn fwy nag undim arall a feddai. Buasai'n well ganddi golli pob peth arall na cholli'r hances. Wedi cynddeiriogi yn aruthr, gafaelodd mewn pastwn praff ac aeth allan o'r tŷ ar ôl y lleidr, a chyn iddo gyrraedd y Gromlech daliodd Cadi ef a dyma hi yn halabalw ar y lleidr. Cafodd 'gwrbitsh' na chawsai erioed ei fath. Gwaeddodd Cadi yn ei wyneb gan ei gystwyo yn ddidrugaredd. "Y llabwst melltigedig, y cythraul digywilydd, y lleidr pen-ffordd. I beth y daethost i'm tŷ i? I ladrata, aie? Aros di, gad i mi weld beth sydd gen ti yn y cwdyn yna?" Cymerodd Cadi'r cwdyn oddi arno a chafodd ei thrysorau yn ôl i gyd. A chan afael yn sgrwff gwegil y lleidr ysgytiodd ef nes yr oedd ei ddillad yn rhacs gyrbibion. Gadawodd Cadi ef yn griddfan yn ei boenau. Aeth hithau yn ôl i'r tŷ, ar ôl dangos i un arall mai peth ffôl yw lladrata oddi ar gymydog.

Medrai Cadi hefyd fod yn addfwyn a charedig. Byddai bob amser yn amddiffyn y gwan a rhoddodd lawer cymorth i'r anghenus.

Bu farw ar Ionawr 23, 1837 ac yn ôl ei dymuniad rhoddwyd ei gweddillion i orffwys yn barchus wrth yr allor yn eglwys Sant Peris yn y Nant.

W. D. Stadnant.

ANHYGOEL, ond GWIR...
20
cyfres Y LLEWOD
o deitlau nawr yng nghyfres Y Llewod!
*Newydd eu cyhoeddi:
19. Y Llewod a'r Fodrwy Saffir
20. Y Llewod a'r Soser Arian
85c yr un
...ac i ddathlu'r achlysur mae'r Lolfa a Dafydd Parri yn trefnu CYSTADLEUAETH FAWR JÒCS Y LLEWOD gyda
£100 O WOBRAU!
Yr holl fanylion yn llyfr 20, ar werth nawr yn eich siop leol.
Y Lolfa Talybont Dyfed ffôn 304
Ein catalog rhad 28-tud. ar gael gyda throad y post

STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael.
Perchnogion cyfeillgar.

W.J.GRIFFITH
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

# DEINIOLEN

MERCHED Y WAWR – Ar Ebrill 23 cyfarfu Merched y Wawr. Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mr Derek Rees (Trin Gwallt), Caernarfon. Mrs Beti Roberts oedd ei fodel. Croesawyd ef gan Mrs Dilys Hughes, y llywydd, a diolchwyd iddo gan Mrs Helen Sutherland. Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs J. Lewis, Pentre Helen a dymunwyd gwellhad buan i bawb oedd yn cwyno. Mrs Eluned Bebb fydd y wraig wadd yn y cyfarfod nesaf.

APÊL GWAUN GYNFI – Cynhaliwyd Gyrfa Chwist lwyddiannus yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Fercher, Mai 16, gyda chefnogaeth dda gan bobl ifainc y pentref. Yr enillwyr oedd: Merched: (1) Mrs G. E. Maxwell, Galltyfoel, Miss Rhian Jones, 2 Tal Gweledfa, Mrs N. Rowlands, 12 Pentre Helen; 'Booby' Mrs B. Cyster, Llys Iorwerth.

Dynion: (1) M. Jones, Minafon; A. Evans, Arvonia, R. Williams, 4 Tai Caradog, Booby A. Jones, 14 Tai Marian; 'Knock-out', Mrs R. Jones, Cremlyn ac A. Jones, 14 Tai Marian.

Cofiwch am y Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi am saith o'r gloch nos Wener, Mehefin 8. Mae addewid am noson dda iawn nos Sadwrn, Mehefin 16 ar yr 'Helfa drysor', a gofynnir i bawb sydd am ymuno roi eu henwau i aelodau'r Pwyllgor yn ddiymdroi er hyrwyddo'r trefniadau ar gyfer yr Helfa a fydd yn cychwyn o Rydfadog am bump o'r gloch. 'Does ond dau fis cyn y byddwn yn cau pen y mwdwl ar yr Apêl, a phwysir am gefnogaeth gryno ar y ddau amgylchiad uchod.

TAITH GERDDED – Fel rhan o weithgarwch y gaeaf mabwysiadodd Clwb Trwro Cefnywaun a Disgwylfa, gapel yn ardal fynyddig Ynys Taiwan. Arferai pobl Shan Li addoli mewn adeilad wedi ei wneud allan o bren ond penderfynwyd codi capel cadarnach. Erbyn hyn mae'r gwaith wedi ei gwblhau. Yr oedd angen 66 o feinciau yn y capel, sef un fainc ar gyfer pob llyfr yn y Beibl, a thadg Clwb Trwro oedd pwrcasu pedair mainc i gynrychioki'r Pedair Efengyl. Trefnwyd taith gerdded a daeth 17 o blant ymlaen tra'r oedd tri arall am nofio ugain hyd pwll nofio Bangor. Oherwydd y tywydd bu raid gohirio'r daith ond fe lwyddwyd i'w chynnal nos Iau, Ebrill 26. Wedi cerdded pellter o bum milltir o amgylch y pentref cafodd pawb wledda ar gwn poeth, criesion a phop. Fore Sadwrn, Mai 5 tro'r nofwyr oedd hi a llwyddodd tri i gyrraedd y nod. Wedi'r cerdded a'r nofio aethpwyd ati i gasglu'r arian a addawyd gan gyfeillion. Mae trefnydd y daith yn falch iawn o gael dweud bod y nod o £88 wedi ei gyrraedd a'r cyfanswm terfynol yn £215. Gwnaed y trefniadau gyda chydweithrediad y Parch. John Tudor sydd yn genhadwr ar ynys Taiwan ac ef fydd yn trefnu i'r rhodd yma o Ddeiniolen gael ei throsglwyddo i Weinidog Eglwys Shan Li, y Parchedig Gao. Bydd y meinciau yn cael eu gwneud gan ddau saer lleol yn Shan Li. Diolchir i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd ac a roddodd o'u hamser gyda'r daith gerdded a'r nofio.

DIOLCH – Dymuna Mrs Nellie Hughes, Erw Fair ddiolch i'r cymdogion, perthnasau a ffrindiau ac yn arbennig i'r Parch. Albert Wynne Jones am ei fynych ymweliadau tra bu mewn gwaeledd yn ystod y misoedd diwethaf.

TABERNACL (E.F.) – Mehefin 6 cynhelir Cyfarfod Pregethu pryd y gwasanaethir gan y Parch. Griffith T. Roberts, M.A., B.D., Botwnnog. Dechreuir am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Cymerodd Sandra a Julie Cyster ran yng Nghymanfa'r Plant Cylchdaith Arfon a gynhaliwyd yn Ebeneser Caernarfon Ebrill 29. Cafodd Llywela Roberts rodd y Tŷ Cenhadol am gasglu dros £5.

LLONGYFARCHIADAU – i ti, Alwena, Cefn Coch ar ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod y Cilgwyn ar Fai 4

Hefyd am ennill y gwpan yn Eisteddfod Clynnog ar Fai 11. Dymuna Alwena ddiolch o galon i'w hathro cerdd, Mr John Griffith, Caer Bythod.



DIOLCH – Dymuna Lynda Parry, 13 Hafod Oleu, ddiolch yn fawr i'w theulu, ei ffrindiau, ac i aelodau staff Ysbyty Môn ac Arfon am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei anhwylder diweddar.

LLONGYFARCHIADAU – i Jacqueline Wardle, 3 Stryd Newydd ar ei phen-blwydd yn 18 oed ddydd Gwener, Mai 25. Dymuniadau gorau oddi wrth Taid a Nain, Barry, Alwena, Gerallt, Mirain a Bedwyr.

DIOLCH – Dymunaf ddiolch unwaith eto i bawb a bleidleisiodd i mi yn yr etholiad Cyngor Cymuned Llanddeiniolen dros Ward Deiniolen. Hefyd i ffrindiau a chyfeillion am eu cymorth i farcio'r cofrestrau. Gwnaf fy ngorau fel Cynghorydd Cymuned i bawb yn y Ward. —Jacob James, Regent House

DIOLCH – Hoffwn ddiolch i ardalwyr Deiniolen a'r cylch am eich cefnogaeth rhagorol yn yr Etholiad Cyngor Cymuned. 'Rwyf yn addo eich cynrychioli hyd eithaf fy ngallu.

— R.S. Evans, (Robin Scotch)

DIOLCH – Dymuna Mr Owie Gibson, 17 Hafod Oleu ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth yn yr etholiad Cyngor Cymuned ddydd Iau, Mai 24.

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Mai 5, priodwyd Carys Ann, unig ferch Mr a Mrs Gwilym D. Williams, 2 Ffordd Deiniol, a Dafydd Llewelyn, mab ieuengaf Mr a Mrs J. Wyn Hamer, Llwyn Crai, Rhostryfan yng Nghapel Cefn-y-Waun. Gweinyddwyd gan y gweinidog y Parch. Trefor Lewis, B.D., Llys Myfyr, a'r organyddes oedd Miss Beti Williams. Y forwyn oedd Miss Nest L. Jones, Llanrug, a'r gwas, Mr Gareth L. Jones, Rhostryfan. Mae'r pâr ifanc wedi cartrefu yn 7 Ffordd Dyffryn, Groeslon.



DIOLCH – Dymuna Carys a Dafydd Ll. Hamer ddiolch am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

LIBANUS (B) – Llongyfarchiadau i Mr John Emrys Morris, 1 Tai Dinorwig, Clwt-y-bont, ar ei ethol yn Llywydd Cwrdd Dosbarth y Bedyddwyr Cylch Caernarfon, hefyd Catherine Lewis, 33 Hafod Olau a Griffith Orwig Lloyd Jones, Celyn ar eu llwyddiant gyda'r arholiad llafaredig. Cafodd y ddau seren aur am eu gwaith.

MARWOLAETHAU – Bylchwyd yr ardal unwaith eto drwy farwolaeth Mr Gruffuth Thomas, 4 Tai Dinorwig, Clwt-y-bont a Mr Robert Morris, gynt o Dai Caradog. Cydymdeimlwn yn fawr â'r holl gysylltiadau teuluol yn eu galar.

Hefyd cydymdeimlwn yn fawr â Mr a Mrs H.V. Evans, 3 Tai Dinorwig, Clwt-y-bont ar golli brawd Mrs Evans, sef Mr Emrys Williams, Llandudno.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar Mrs Harriet Rogers, gynt o Brenteg yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU – i Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen ar ennill pedair tystysgrif, sef tair ail wobr am Ysgrif, Drama Fer a Thraethawd, a hefyd y drydedd wobr am linell goll, yn Eisteddfod Cylchdaith Arfon (EF) ym Mhenmaenmawr. Yn yr un Eisteddfod, cafodd Mr D.N. Davies, 82 Pentre Helen y 3edd wobr am gyfieithu emyn o'r Saesneg i'r Gymraeg. Llongyfarchiadau calonnog i'r ddau. Mae'r ddau yn aelodau ffyddlon yng Nghapel y Tabernacl.

Y SEINDORF – Bu nifer o'r aelodau mewn cystadleuaeth yn y Rhyl, Sadwrn, Mai 26. Enillodd Gwyn Parry yr ail wobr yn y 'Slow Melody' allan o pedwar ar ddeg o gystadleuwyr a daeth yr ail wobr yn yr 'Air Varie' i Eifion Hughes allan o wyth o gystadleuwyr, hefyd cafodd pedwarawd o'r Seindorf yr ail wobr yn eu dosbarth hwythau, ac 'roedd y cystadlu o safon uchel iawn meddai'r beirniad, Mr Wm. Relton. Llongyfarchiadau iddynt oll ac i'r arweinydd Mr Eric Foster am eu dysgu. Hefyd carem ddiolch i Mrs Helen Wyn Lewis, ac Annette Roberts am eu cymorth ar y piano.

# CEUNANT

I'R YSBYTY – Drwg gennym ddeall bod Miss Mary Pierce, Bryn Glas yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi.

O'R YSBYTY – Croeso adref i Mrs Jones, Tŷ Capel o'r ysbyty. Dymunir gwellhad buan iddi.

## CARNIFAL LLANRUG

Cofiwch am Wythnos Carnifal Llanrug o'r 10fed i'r 16eg Mehefin. Dyma grynodeb o weithgareddau'r wythnos:

Nos Sul: Cymanfa ganu yn y Capel Mawr

Nos Lun: Tombola yn yr Ysgol Gynradd

Nos Fawrth: Disco yn yr Ysgol Gynradd

Nos Fercher: Dwy gêm bêl-droed, gan gynnwys rownd derfynol Tarian Eco'r Wyddfa, ar gae Bryn Moelyn

Nos Iau: Noson Goffi

Nos Wener: Chwaraeon a Mabolgampau ar gae Ysgol Brynrefail

Dydd Sadwrn: Gorymdaith y Carnifal

Nos Sadwrn: Cinio a Dawns yng ngwesty'r 'Royal Goat' Beddgelert

# BETWS GARMON

MARW – Yn ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon ar Fai 21 bu farw Mr Amos Jones, Bryn Afon yn 73 mlwydd oed. 'Roedd yn glarc ar Gyngor Cymuned Beddgelert ac yn gyn-Gynghorydd ar yr hen Gyngor Gwyrfai am flynyddoedd. Ef oedd Warden y Ficer yn eglwys St. Garmon, ac ar ddydd ei angladd, Mai 23, 'roedd yr eglwys yn orlawn gyda llu o'i gyfeillion yn bresennol. Dilynwyd y gwasanaeth cyhoeddus gyda gwasanaeth preifat i'r teulu'n unig yn Amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Canon Glyndwr Williams (Rheithor); y Parch. E. Trefor Jones (Ficer); a'r Brawd Nathanael, SSF., (Curad). Yr organyddes oedd Miss M. Roberts, Ardd Isaf, Waunfawr. Cydymdeimlir â'i weddw, Mrs M.C. Jones, a'i unig fab Iestyn a'r teulu, ac â'i frawd, Mr Morus Jones, Llaniestyn.

'MUDO – Gadawyd bwlch arall yn y pentref trwy i Mrs C. Pritchard, Bryn Derwen symud i fyw i'r Waunfawr. Dymunir hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd yn Nhref Eilian.

LLONGYFARCHIADAU – i Emyr Jones, Tŷ Coch ar ddathliad ei benblwydd yn 18 oed ar Fai 13.

## YN EISIAU

Piano addas i blentyn ddysgu – Ffôn: Caernarfon 5119.


AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............

Eric Morris



Bwsiau Arfon
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254

# Bethel

DIOLCHIADAU — Dymuna Mrs A.M. Williams, 3 Cremlyn ddiolch i holl staff a disgyblion Ysgol Bethel ac i'w llu o gyfeillion tu allan i'r ysgol am bob ymddangosiad caredig a'r llu anrhegion a dderbyniodd ar ei hymddeoliad ar ol 27 mlynedd fel cogyddes yr ysgol. Diolch o galon i bawb.

MERCHED Y WAWR — Cyfarfod mis Mai dan lywyddiaeth Mrs M. G. Williams, Gwylfa. Llongyfarchwyd Mrs Lynwen Morris ar enedigaeth mab a dymunodd y gangen adferiad buan i Mrs A. Jones, Cefn. Cafwyd adroddiad o'r Cyngor Cenedlaethol yn Aberystwyth gan Mrs A. E. Williams, Tŷ Newydd. Y gŵr gwadd oedd Mr G. Davies, Y Ddôl. Diolchwyd iddo gan Mrs Williams, 18 Bro Rhos. Dewiswyd y rhai canlynol yn swyddogion 1979/80:

Llywydd: Mrs Beti Owen, Crud yr Awel; Is-lywydd: Mrs Helen Bebb, Llwyn Eithin; Trysorydd: Mrs Ceinwen Williams, Bryn Pistyll; Is-drysorydd: Mrs Eirlys Sharpe, Llys Elen; Ysgrifennydd: Mrs Madge Williams, Hafod. Pwyllgor: Mrs Mabel Jones, Mrs Mair Jones, Mrs Anne Elis, Mrs M. G. Williams, Mrs Rita Williams, Mrs Gwyneth Jones, Mrs Gwyneth Williams, Mrs Mair Price.

Penderfynwyd cyfrannu £10 o rodd at ymchwil leukaemia i blant.

Diolchwyd i Mrs Williams, Gwylfa am ei gwasanaeth fel Llywydd gan Mrs Elizabeth Evans, Blaen Parc.

Bydd Mrs Rita Williams, Elan yn derbyn yr enwau at yr Helfa Drysor sydd i'w chynnal ar Fehefin 13, hyd at ddydd Llun, Mehefin 11, ynghyd â'r arian, sef £1.20 am gyw iâr a sglodion a £1.30 am sgampi a sglodion.

DYMUNIADAU GORAU — i Dewi Jones, Cennarth, sydd bellach gartref ar ôl cyfnod mewn ysbyty yn Lerpwl. Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am y llu anrhegion a'r holl ddymuniadau da a estynnwyd i Dewi.

CLWB 100 — Enillwyr y clwb cant am y mis oedd: 1af: Mrs Williams, Parc y Waun (£20); 2il: Mrs S. Jones, Cefn (£10); 3ydd: Mr Collwyn Williams, Tan y Cae (£5).

Erbyn hyn mae cronfa'r pentref wedi cyrraedd £2,100, dim ond £150 yn fyr o'r nod, a dau fis i fynd.

LLONGYFARCHIADAU — i Ann a Bil Evans, Gorffwysfa ar enedigaeth mab bychan, Meilir Gwilym ar Fai 5 yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

Llongyfarchiadau hefyd i Heddwyn a Valerie Jones, 16 Stad Eryri ar enedigaeth mab bychan, Darren.

Llongyfarchiadau i Lynwen ac Idwal Morris, Perthi ar enedigaeth mab bychan, Carwyn John. Mae Lynwen ac Idwal hefyd yn dymuno diolch i bawb am y llu anrhegion a chardiau a anfonwyd i Carwyn.

CARNIFAL — Cyn bydd yr Eco nesaf wedi ymddangos bydd Carnifal cyntaf y pentref ers saith mlynedd yn ei anterth. Gobeithio y ceir tyrfaoedd i bob gweithgarwch ac y bydd y pentref i gyd yn elwa o'r Carnifal.

Dyma raglen y Carnifal a fydd yn dechrau Nos Sul, Mehefin 24:

Nos Sul — Cymanfa Ganu; nos Lun — Disgo'r Plant; nos Fawrth — Helfa Drysor (ar droed o amgylch y pentref); nos Fercher — Chwaraeon; nos Iau — Cystadleuaeth Bel-droed a Gyrfa Chwilod; nos Wener — Noson Lawen; dydd Sadwrn — Carnifal; nos Sadwrn — Disgo i oedolion.

LLONGYFARCHION — i Neil Jones, Cadnant ar ennill y darian ym mabolgampau Ysgol Brynrefail am y perfformiad gorau. Enillodd 1af — rhedeg 1,500 m; 1af rhedeg 800m, gan greu record newydd o 2.44m. Daeth yn ail am redeg 100m ac ail am naid uchel; trydydd gyda'r bicell; pedwerydd yn y naid hir. Enillodd Neil ym mabolgampau'r sir hefyd ac felly caiff y cyfle i redeg dros Gymru.

CLWB Y MAMAU — Nos Fercher, Ebrill 25 cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Gwilym Owen HTV Cymru. Ef hefyd oedd yn beirniadu'r Gystadleuaeth Het Basg. Het a wisgid gan Mrs Grace Jones, Bro Rhos aeth a'i ffansi. Mrs Diane Roberts a Mrs Grace Jones, Bro Rhos oedd y gwestwragedd. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Nan Owen, Berwyn.

Nos Fercher, Mai 23 aeth aelodau'r clwb am eu cinio blynyddol i Westy Victoria, Llanberis.

Dymuna'r llywydd, Mrs Elizabeth Evans ddiolch i'r aelodau am bob cymorth yn ystod y flwyddyn, ac i'r pentrefwyr am bob help a gafodd Clwb y Mamau pan yn casglu at unrhyw achos yn y pentref.

BEDYDD — Dydd Sul, Mai 20 yn Eglwys Llanddeiniolen, bedyddiwyd Irfon, mab bychan Mr a Mrs Raymond Jones, Almira. Gweinyddwyd y bedydd gan Mr R. Jones, y Felinheli.

YSGOL SUL Y CYSEGR — Mae Ysgol Sul y Cysegr wedi prynu piano newydd yn ddiweddar. Byddai'r Ysgol yn falch o dderbyn cyfraniadau gan unrhyw un a hoffai helpu i glirio'r gost.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr a Mrs Goronwy Jones, Glangors a fydd yn dathlu eu priodas arian ddydd Mawrth, Mehefin 5.

YN GWELLA — Da gweld Huw, Bryn Pistyll yn gwella ar ol cael damwain i'w law.

'Rydym yn dymuno'n dda i bawb o'r pentref sydd yn wael ac yn gobeithio y byddant yn gwella yn fuan.


Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD


# PENISARWAUN

CLWB YR HEULWEN — Cynhelir y cyfarfod nesaf o Glwb yr Heulwen ar Fehefin 19.

YN YR YSBYTY — Clywsom fod Mr Leslie Wood yn yr ysbyty ym Mangor. Yr ydym yn dymuno gwellhad buan iddo.

YN BEDWAR UGAIN OED — Dathlodd Mrs G. Thomas, Tai Newyddion ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ar Fai 13 eleni. Er braidd yn hwyr, mae'n bleser gennym ddymuno pen-blwydd hapus i chwi. Yn ddiweddar, cafodd Mr O. Thomas, Tai Newyddion a Mr Robert Owen, Cae Corniog Bach hwythau eu penblwydd yn 80 oed.

MR EVAN HUGHES, CAE HYWEL — Cydymdeimlwn gyda Mr Hughes, Cae Hywel yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer yn Llyn.

KEN WILLIAMS, LLWYN DERW — Symudodd Ken Williams i'r Fali, sir Fon yn ddiweddar. Pob hwyl iddo yno gyda'i yrfa yn y Llu Awyr.

Y GOG YN HWYR — Yr oedd y gog a'r gwenoliaid yn hwyr iawn yn cyrraedd Penisarwaun eleni. Clywodd un y gog ar Sadwrn, Mai 12 ac yr oedd y wennol yn hedfan yma y diwrnod wedyn.

MRS N. PRITCHARD, BRYN HYFRYD — Gwellhad buan i Mrs Pritchard ar ôl ei damwain yng Nghaernarfon. Cafodd anaf i'w braich.

BERWYN PATERSON — 'Roedd yn ddrwg gennym glywed bod Berwyn wedi disgyn a thorri ei arddwrn.

MR C. NAYLOR — Dal i fod yn yr ysbyty y mae Mr Naylor; bu am gyfnod yn aros gyda'i fab yn Y Glyn, Caernarfon. Brysiwch wella, Mr Naylor.

DANIEL ROWLANDS — Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Trefor Rowlands ar enedigaeth eu mab, Daniel, ar Fai 3.

MR A MRS HAYDN LEWIS, PEN PWLL COCH — Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs Lewis. Maent hwy wedi cael mab, brawd i Nia a Sioned.

CROESO — Croeso'n ôl i Mrs G. Thomas, 2 Tai Madog. Bu gyda'i merch yn Neiniolen am gyfnod ond yn awr y mae wedi dychwelyd atom. Yr ydym yn falch o'ch gweld yn ôl, Mrs Thomas.

EGLWYS SANT HELEN — Bu cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Ebrill 30. Cymerodd Mrs Mowll y gwasanaeth. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Len Jones, ysgolfeistr y pentref. Rhoddwyd y te gan Mrs N. M. Pritchard a Mrs Eiriona Williams. Drwg gennym glywed bod Mrs E. B. Jones, 6 Bryntirion yn dal yn sal.

Dydd Sul, Mehefin 3 fydd dydd gwyl a rhodd yn yr eglwys. Bydd cymun yn Gymraeg am hanner awr wedi deg, a chymun yn Saesneg am chwarter wedi tri. Yn yr hwyr bydd Gosber a disgwyliwn yr Archddeacon, sef y Parch. Arfon Evans, i annerch.

Cynhelir Noson Goffi dan nawdd Undeb y Mamau nos Lun, Mehefin 4 yn Neuadd yr Eglwys. A'r elw tuag at Gymorth Cristnogol.

Y GENHADAETH DRAMOR — Llongyfarchiadau i bedwar aelod ifanc o Ysgol Sul Capel y Waun, sydd wedi casglu cyfanswm o £33 o ddrws i ddrws tuag at yr uchod. Diolch yn fawr blant; daliwch ati. Dyma'u henwau: Dylan Jones, Meillionydd—£9.40; Carolyn Jones, 11 Bryntirion — £9.35; Jonathan Richardson, 6 Bryn Hyfryd — £9.10; Mark Porter, 4 Bron y Waun — £5.10.

DIOLCH — Hoffai Nant a Tegid Roberts, Arwel, ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a chyfeillion am yr anrhegion, cardiau a dymuniadau da ar enedigaeth Huw Tegid.

PRIODAS — Dyma lun Mr W. Bryn Hughes, mab Mr a Mrs Evan Hughes, Ty Newydd Cae Hywel a Miss Patricia E. Wilkinson, merch Mr a Mrs W. H. Wilkinson, 54 Caer Saint, Caernarfon ar ol eu priodas yn Swyddfa Gofrestru Caernarfon yn ddiweddar. Rhoddwyd y briodferch i'w gŵr gan ei thad. Y forwyn oedd Miss Jennifer Wilkinson, chwaer y briodferch. Cyfyrder y priodfab, Mr Ieuan Wyn Roberts, Penisarwaun, oedd y gwas.



## Wedi Cyrraedd Y Nod



*Llongyfarchiadau i aelodau Pwyllgor Penisarwaun ar gyrraedd eu nod o £1,125 tuag at Eisteddfod Caernarfon.*

# Dyddiadur y Mis


MAI 30–MEHEFIN 2: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Maesteg.
MEHEFIN 1, Gwener: LLANBERIS – Clwb yr Henoed; PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
2, Sadwrn: LLANRUG – Gwibdaith Undeb y Mamau i Lerpwl. CWM-Y-GLO – Gwibdaith Undeb y Mamau i Lerpwl.
3, Sul: PENISARWAUN – Dydd Gwyl a Rhodd yn Eglwys Sant Helen.
4, Llun: PENISARWAUN – Noson Goffi dan nawdd Undeb y Mamau yn Neuadd yr Eglwys; Yr elw at Gymorth Cristnogol. LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pel-droed yn y Ganolfan am 7.30.
6, Mercher: WAUNFAWR – Rali Geir yr Ysgol Feithrin. DEINIOLEN – Cyfarfod Pregethu yn Eglwys y Tabernacl (EF) am 7.00. LLANRUG – Y CO Bach yn yr Ysgol Gynradd. Cyfarfod Cyffredinol i drafod Eisteddfod Gadeiriol Llanrug i ddilyn. LLANBERIS – Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.
7, Iau: WAUNFAWR – Sefydliad y Merched. BETHEL – Sefydliad y Merched.
8, Gwener: DEINIOLEN – Apel Gwaun Gynfi – Noson Goffi yn yr ysgol am 7.00. PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
9, Sadwrn: LLANBERIS – Taith Gerdded Noddedig Flynyddol y Carnifal. YR ARDAL – Gwibdaith flynyddol Clwb Eryri. DEINIOLEN – Merched y Wawr – Pleserdaith i Faes Artro, Llanbedr, Meirionnydd.
11, Llun: LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.
12, Mawrth: LLANRUG – Merched y Wawr – Pleserdaith i Faes Artro, Llanbedr, Meirionnydd.
13: Mercher: BETHEL – Merched y Wawr – Helfa Drysor
14, IAU: YR ARDAL – Cyfarfod i draethu barn ar yr 'Eco' yn y Ganolfan Llanberis am 7.30.
15, Gwener: LLANBERIS – Clwb yr Henoed. PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
16, Sadwrn: DEINIOLEN – Apêl Gwaun Gynfi – Helfa Drysor
18, Llun: LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30
19, Mawrth: BRYNREFAIL – Clwb 'Refail – Pleserdaith i Gricieth. PENISARWAUN – Clwb yr Heulwen.
20, Mercher: LLANBERIS – Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30
BETHEL – Sefydliad y Merched – Noson Caws a Gwin yng Nghastell Penrhyn.
22, Gwener: PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
23, Sadwrn: LLANRUG – Y Gymdeithas Undebol – Taith Hanesyddol i Ardal Llangollen. BRYNREFAIL – Helfa Drysor y Clwb Pedwarugain.
24–30: Wythnos Garnifal Bethel
24, Sul: BETHEL – Cymanfa Ganu
25, Llun: BETHEL – Disgo'r Plant
LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 7.30.
Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30
26, Mawrth: BETHEL – Helfa Drysor o amgylch y pentref
27, Mercher: BETHEL – Chwaraeon
28, Iau: WAUNFAWR – Merched y Wawr – Rali Geir. BETHEL – Cystadleuaeth Pêl-droed a Gyrfa Chwilod
29, Gwener: BETHEL – Noson Lawen
LLANBERIS – Clwb yr Henoed
Noson Goffi Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan
PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
30, Sadwrn: BETHEL – Y Carnifal
Disgo i oedolion yn yr hwyr
LLANRUG – Ffair Haf Rigarug yng ngerddi Castell Bryn Bras

### DYDDIADAU I'W COFIO

Gorffennaf 8–14. . . Wythnos Garnifal Ysgol Feithrin Waunfawr.
Gorffennaf 13–21. . . Wythnos Garnifal Llanberis
Gorffennaf 18. . . 'Brethyn Cartref'. Apêl Gwaun Gynfi, Deiniolen.


CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR


# CROESAIR RHIF 32



**AR DRAWS:**

1. . . . . . newydd (5)
3. Y bocs! (6)
7. Metel (3)
8. Ystlys (3)
9. Organau'r genau (7)
11. Stori (5)
13. Smala (5)
15. Pysgodyn (3)
17. "I . . . fry ar y goeden (4)
20. Erw (4)
21. Gwael (7)
22. Diwethaf (4)
24. Segur (4)
27. Cysylltu (3)
29. Diffaith (5)
30. Ŷd wedi ei falu (5)
33. Adfer (7)
34. Gwialen (3)
35. Llid (3)
36. Llesol (6)
37. Haearn ar sawdl esgid (5)

**I LAWR:**

1. Cyflawn neu heb fai (7)
2. Honiad neu ddatganiad (6)
4. Surdoes (6)
5. Tragwyddol (7)
6. Oernadu (3)
10. Plisg grawn llafur (2)
12. Llewyrch (7)
14. Syth (5)
16. Sawr (5)
18. Ardal (3)
19. Glan (3)
23. Rhannau o'r Beibl (7)
25. Tâl am golled (7)
26. Efelychiad (6)
28. Corff nefol (6)
31. Rhyfedd (2)
32. Ffyrnig (3)

**ATEBION CROESAIR RHIF 31**

AR DRAWS: 3. Almanac; 7. Einion; 8. Carpio; 9. Dolefain; 11. Lein; 12. Gocheladwy; 17. Caer; 18. Unigolyn; 19. Gwymon; 20. Anafau; 21. Crys dydd.

I LAWR: 1. Glendid; 2. Canolog; 3. Afon fach; 4. Amcan. 5. Amryliw; 6. Croen; 10. Iolyn; 13. Offrymwr; 14. Digonedd; 15. Yslafan; 16. Pen punt; 17. Cogio; 18. Unnos.

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren:
**ch; dd. ff; ng; ll; ph; rh; th.**

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.

**ENILLYDD CROESAIR RHIF 31**
**Jean Vaughan Jones,**
**206 Miles Buildings,**
**Corlett St.,**
**Llundain.**

**Enw** ——————————

**Cyfeiriad** ——————————

Anfoner y cynigion fel arfer i: **Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.**

# CHWARAEON

## LLWYDDIANT MABOLGAMPAU

**Bu'n fis prysur a llwyddiannus i nifer o fabolgampwyr yr ardal, gan ddechrau â chyfarfod Ysgol Brynrefail. Bu'r enillwyr yno yn cystadlu ymhellach yng Nghyfarfod Ysgolion Arfon ac o ganlyniad bydd nifer anrhydeddus yn cynrychioli'r sir yn ystod yr wythnosau nesaf yng Nghyfarfod Gwynedd.**

**Gan fabolgampwyr tŷ Elidir yr enillwyd y mwyafrif o farciau yng nghyfarfod yr ysgol, gyda Gwyrfai yn ail ac Eilian yn drydedd. Margaret Roberts oedd y Victrix Ludorum, gyda 27 o farciau, a chasglodd Eifion Jones 42 o farciau i ennill y tlws Victor Ludorum.**



*Margaret Roberts, Victrix Ludorum Ysgol Brynrefail.*



*Eifion Jones, Victor Ludorum, Ysgol Brynrefail*

Cyflwynwyd tarian i'r perfformwyr gorau ym mhob adran fel a ganlyn:
Genethod Ieuaf: Melanie Sellars – 100m – 15 eil (record); Iau: Carys Williams, 200m – 30.4 eil. (record); 100m – 13.8 eil. (record)
Hyn: Julie Clarke – 200m – 30.0 eil. (record); 100m – 13.5 eil. (record).
Bechgyn Ieuaf: Neil Jones – 800m – 2f 44 eil. (record); Mathew Antoine ( ennill 6 cystadleuaeth); Iau: Ceris Jones – (ennill 6 cystadleuaeth); Hyn: Gwynfor Williams (ennill 25½ o farciau i'w dy).

Gwelwyd berfformiadau nodweddiadol hefyd gan Delyth Jones, torri record y bicell i enethod ieuaf, a Susan Ward, record y ddisgen i enethod iau.

Wyth record newydd felly, a sail i obeithion yr ysgol am lwyddiant pellach yng Nghyfarfod y Sir, ac ni'n siomwyd.

O garfan y bechgyn ieuaf daeth Neil Jones yn gyntaf yn y ras 1500m, Nigel Roberts enillodd y naid uchel, Steven Owen gystadleuaeth y bicell a Mathew Antoine oedd y gorau am daflu'r ddisgen a'r cyflymaf dros 100m.

Melanie Sellers oedd yr unig ferch o'r oedran yma i ennill, hi aeth â'r ras 800m.

O blith y genethod yn yr adran Iau, enillodd Cheryl Edwards ar daflu'r ddisgen a'r pwysau, ac yn y dosbarth dan 17 oed Linda Roberts ar y bicell ac Alison Jones yn y naid hir. Enillodd Robin Williams y gystadleuaeth taflu'r ddisgen i fechgyn yr un dosbarth a chan Julie Clarke oedd y naid hiraf yn y gystadleuaeth i ferched hyn.

Deuddeg gwobr gyntaf, felly i blant yr ysgol, heb sôn am y saith ail, a'r un ar ddeg trydydd. Llongyfarchiadau calonnog iddynt i gyd, a phob lwc i'r rhai fydd yn cystadlu yng Nghyfarfod Gwynedd.

## PENCAMPWR JUDO

Daeth ychwaneg o lwyddiant ym myd Judo i'r fro yn ystod y mis, a'r tro hwn, Adrian, mab pymtheg oed Mr a Mrs Dennis Williams, 23 High St. Llanberis fu'n rhoi'r ardal ar y map. Mae'n aelod o glwb Bushido, Bangor, ac er nad



*Adrian*

oes ond tri mis ar ddeg er iddo ymgymeryd â'r sbort ac er nad yw, hyd yma, ond wedi cyrraedd safon y belt oren, mae eisoes wedi gwneud ei farc led-led Cymru.

Y mae'r medalau a'r tariannau yn ei gartref yn dystion mud iddo ddod yn drydydd yn ei ddosbarth drwy Wynedd yn 1978 ac yn gyntaf eleni. Daeth hefyd yn ail yng nghystadleuaeth agored Gogledd Cymru ychydig fisoedd yn ôl, ond ym Mhlas Madog, Wrecsam ar Fai 13 y profodd fod ynddo, efallai, y gallu i gyrraedd uchelfannau y gamp arbennig hon.


Daeth yn gyntaf drwy Gymru, ac felly ennill y Bencampwriaeth a'r Fedal Aur yn y dosbarth dros 65kg i rai dan 16 oed.

Pob lwc iddo a hyderwn y clywir llawer mwy am ei orchestion ef, a'i gyd-aelodau yn y Clwb sy'n hanu o ardal yr Eco, yn y dyfodol.

## MEDAL AUR I IEUAN

**Deallwn fod Ieuan Owen, y Codwr Pwysau o Gaernarfon fu, ers rhai blynyddoedd bellach, yn ymarfer ei grefft yng Nghlwb Llanrug i dderbyn Medal Aur Cyngor Chwaraeon Cymru ym mis Medi.**

**Fe'i dewiswyd, ynghyd â phedwar ar ddeg o enwogion byd chwaraeon Cymru am ei gyfraniad helaeth i chwaraeon ein gwlad. Llongyfarchiadau iddo.**



# PÊL-DROED

## Pum Tlws i'r Ardal

Y DIWEDD tymor prysuraf erioed! Yn ystod y mis, rhwng 24 o Ebrill a 29 o Fai bu'n rhaid i Lanrug chwarae 16 gêm, sydd bron gyfystyr â gêm bob yn ail ddiwrnod ac onibai i Lanberis a Mountain Rangers eu curo yn rowndiau cynderfynol y Cwpanau Alves a Morrings buasai'r rhif yn ddeunaw.

Ni fu Llanberis hwythau'n diogi, gan iddynt chwarae dwsin o gemau yn ystod yr un cyfnod.

Blinder a syrffed ar bêl-droed yw esgus carfan Llanrug am y ffaith na chyrhaeddasant Rownd Derfynol y Tri Chwpan Cynghrair, tra daw'r ateb o Lanberis eu bod hwy wedi dioddef cyfnodau o'r fath yn y gorffennol ac heb golli'r un gêm. Beth bynnag fo'r dadleuon a'r esgusion, mae ffeithiau noeth diwedd y tymor yn dangos mai i Lanberis yr aeth y mwyafrif o dlysau'r tymor, ond i Lanrug sicrhau'r rhai pwysicaf, sef Pencampwriaeth y Gynghrair a Chwpan Iau Gogledd Cymru am yr ail dymor yn olynol.

### LLANBERIS

**Y CWPAN DEANFIELD i ail dîm y Gynghrair; colli o un gôl i ddim yn erbyn Llanrug am y Bencampwriaeth.**

**Y CWPAN ALVES – Curo Mountain Rangers o ddwy gôl i un – Ray Harding yn sgorio'r ddwy.**

**Y CWPAN MOORINGS – Curo Llanrug o un gôl i ddim ar gae Pwllheli. Ray Harding eto, yn rhwydo'n hawdd ar ôl i Nigel Hardwick, gol-geidwad Llanrug roi anrheg o'r bêl iddo bron ar linell y gôl.**

**Tîm Llanberis oedd: Gwilym Williams, John Pritchard, Phill Holland, Gareth Williams, Keith Davies, Einion Holland, Selwyn Allsup, Iwan Evans, Gwilym Williams, Ray Harding a Peter Evison.**

### LLANRUG

**PENCAMPWRIAETH Y GYNGHRAIR –unwaith eto, a'r gêm dyngedfennol unwaith eto, yn erbyn Llanberis.**

**CWPAN IAU GOGLEDD CYMRU – 29/5/79 ar gael Caernarfon Utd. Llanrug 6 Teigrod Porthaethwy 3**

Nid dyma'r cae gorau yng Nghynghrair Arfon, a siomedig, i ddweud y lleiaf yw ei fod wedi ei ddewis i chwarae gêm mor bwysig arno. 'Doedd y gwynt cryf a chwythai o un gôl i'r llall fawr o fantais ychwaith, ond er gwaetha'r ffactorau hyn gwelwyd un o gemau mwyaf cyffrous y tymor.

Tîm y Borth oedd y cyntaf i ddod i delerau, gan ymosod yn ffyrnig a'r gwynt yn eu hwynebau. I Lanrug, er hynny, y daeth y ddau gyfle cyntaf, ciciodd Len Padmore gyfle da dros y trawst, ond a hanner awr o'r gêm drosodd, rhwydodd yn fedrus. Deng munud ar ôl hynny, sgoriodd Hefin Jones i'w gwneud yn 2–0.

Yn fuan yn yr ail hanner y sgoriodd Dic Owen ei gôl gyntaf, ac edrychai'n fuddugoliaeth weddol hawdd i Lanrug. 'Roedd syniadau eraill gan yr ynyswyr ac mewn cyfnod o hanner awr sgoriwyd tair gôl ganddynt a methu tair arall. Llwyddodd Llanrug i'w dal hyd ddiwedd yr ail hanner a'r sgôr yn gyfartal.

'Doedd ond un tîm ynddi yn yr amser ychwanegol, peniodd Vernon Lloyd i'r rhwyd o gic gornel Hefin Jones yn y cyfnod cyntaf, ac yn yr ail sgoriodd Dic Owen eto. Daeth y cyfle i Hefin Jones goroni perfformiad rhagorol a dim ond munudau ar ôl drwy rwydo o'r smotyn gwyn.

**Tim Llanrug oedd: Nigel Hardwick, Ken Jones, Huw Hughes, A.V. Owen, Dafydd Horman, Peter Roberts, Gwynfor Owen, Len Padmore, Dic Owen, Vernon Lloyd a Hefin Jones. G.V. Owen oedd yr eilydd.**